Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

2021-22

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Trydar: @comisiwnphcymru

Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Cynnwys

Adroddiad ar Berfformiad

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rhagair	**04**
Fy rôl fel Comisiynydd	**07**
Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd	**08**
Strategaeth y Comisiynydd ar gyfer 2019-24	**09**
Cipolwg ar 2021-22	**10**
Gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2021-22	**14**
Adolygiad o gyllid a pherfformiad ariannol	**30**
Adroddiad ar Gynaliadwyedd	**32**

Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad ac yn arfer llywodraethu corfforaethol da. Mae'n cynnwys y canlynol:

Adroddiad y Cyfarwyddwr	**35**
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	**38**
Datganiad Llywodraethu	**39**
Adroddiad ar Staff a Thaliadau	**46**
Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	**57**

Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol, ochr yn ochr â nodiadau esboniadol ac ategol, yn cynnwys y canlynol:

Datganiadau Ariannol	**61**
Nodiadau i'r Cyfrifon	**66**

Rhagair

Bu'n flwyddyn arall o ansicrwydd a her i bawb, ond wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad hwn, y gobaith yw ein bod yn gweld diwedd y pandemig, ac y bydd mwy o gyfle i ailgysylltu â'r bobl a'r gweithgareddau sy'n bwysig i ni.

Er bod y pandemig wedi arwain at gryn heriau, gwelwyd pobl hŷn yn dangos cryfder gwirioneddol. Gwelwyd y gorau o'n cymunedau hefyd, wrth i wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol, elusennau, busnesau lleol a chyrff cyhoeddus gydweithio mewn partneriaethau newydd i gynnig cymorth a chefnogaeth ledled Cymru.

Wrth i ni, gobeithio, ddod allan o'r pandemig, rydym yn wynebu heriau newydd, o'r argyfwng costau byw i'r rhestrau aros ar gyfer triniaethau'r GIG. Ond mae cyfleoedd hefyd – cyfleoedd i ddatblygu'r partneriaethau newydd a'r ffyrdd o weithio a grëwyd yn ystod y pandemig.

Er gwaethaf anawsterau 2021-22, llwyddodd fy ngwaith i fel Comisiynydd i gefnogi cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol.

Yn dilyn galwadau gennyf i, mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn rhoi pwyslais cryf ar greu cymunedau oed-gyfeillgar yng Nghymru, sy'n hanfodol er mwyn ein helpu i heneiddio'n dda. Erbyn hyn, mae fy swyddfa hefyd yn aelod cysylltiol o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar, yn helpu awdurdodau lleol i wireddu eu hymrwymiadau yn hyn o beth. Yn sgil y gwaith hwn, mae'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru – Caerdydd – wedi ymuno â'r rhwydwaith, fel cydnabyddiaeth o gynlluniau'r ddinas i fod yn oed-gyfeillgar. Mae llawer o rai eraill hefyd wrthi'n cwblhau eu cynlluniau i gefnogi eu ceisiadau i'r Rhwydwaith.

Yn ystod y pandemig, gwelwyd effaith y newid cyflym tuag at wasanaethau ar-lein ar bobl hŷn. Rwyf wedi defnyddio fy mhwerau statudol i gyhoeddi canllawiau ffurfiol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw mewn byd sy'n fwyfwy digidol.

Ar ben hynny, mae ymchwil a gomisiynais yn ystod y flwyddyn – a oedd yn cynnwys edrych ar brofiadau pobl hŷn o gam-drin, ac ymchwil i'r ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu portreadu yn y cyfryngau – wedi darparu tystiolaeth newydd i gyflwyno'r achos dros newid, ac yn arwain at weithredu.

Hoffwn ddiolch i'r holl bobl hŷn a'r partneriaid y cefais gyfle i weithio gyda nhw yn ystod 2021-22 am eu cymorth i fwrw ymlaen â'm blaenoriaethau, ac i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am eu cyngor doeth. Hoffwn ddiolch hefyd i'r tîm am eu gwaith caled, eu hymrwymiad a'u hymroddiad.

Gan edrych ymlaen i'r dyfodol, rwy'n falch bod fy nghyfnod fel Comisiynydd wedi cael ei ymestyn tan fis Awst 2024. Mae'n anrhydedd mawr bod yn llais annibynnol ac yn eiriolwr dros bobl hŷn.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, fy nod yw sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, bod hawliau'n cael eu parchu ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Byddaf hefyd yn datblygu ac yn bwrw ymlaen â'r cynnydd a wnaed o dan fy mhedair blaenoriaeth, sef hawliau, gwahaniaethu ar sail oedran, cam-drin a heneiddio'n dda.

Mae'r tîm a minnau'n parhau i ymrwymo i wneud popeth yn ein gallu er budd pobl hŷn ledled Cymru.

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adroddiad ar Berfformiad

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan roi sylw i'r ystyriaethau allweddol a'r risgiau a wynebwyd yn 2021-22.

Fy rôl fel Comisiynydd

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru, a hynny yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 10 (1) (b).

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw gwarchod a hybu hawliau pobl 60 oed a hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau.

Drwy fy nhîm gwaith achos, rwy'n rhoi cymorth a chefnogaeth uniongyrchol i bobl hŷn, gan weithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud.

Fy nghylch gwaith fel Comisiynydd

Fel y nodwyd yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a sefydlodd y swydd, cylch gwaith y Comisiynydd yw:

- **Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny**
- **Hyrwyddo'r cyfleoedd a ddarperir i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu rhagfarn yn eu herbyn**
- **Hybu'r arferion gorau o ran y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru**
- **Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru**

Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd

Rwyf am i Gymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo.

Mae hyn yn golygu dathlu'r ffaith ein bod ni'n gymdeithas sy'n mynd yn hŷn, a sicrhau bod pob un ohonom yn gallu mwynhau'r cyfleoedd sy'n deillio o hynny. Mae'n golygu bod yn barod i fynd i'r afael â'r heriau y gallem eu hwynebu wrth i ni fynd yn hŷn, a sicrhau bod pobl hŷn, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'n golygu croesawu a hybu arloesedd ac arferion da er mwyn ysbrydoli pobl i weithredu, gan ddal pobl yn atebol pan fo angen.

Mae hefyd yn golygu grymuso pobl hŷn drwy sicrhau eu bod nhw'n deall eu hawliau cyfreithiol, a sut y gallent ddefnyddio'r hawliau hynny i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac i herio arferion, gwasanaethau ac agweddau gwael tuag at bobl hŷn.

Ymddygiadau a Gwerthoedd Mewnol y Sefydliad

Rwyf wedi cydweithio â staff ar ddyluniad ein gwerthoedd a'n hymddygiadau sefydliadol. Mae'r gwerthoedd hyn yn arwain diwylliant ein sefydliad ac yn sail i'n hamcanion perfformiad personol. Mae'r gwerthoedd yn ffordd o ddal ein hunain yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Strategaeth y Comisiynydd

Roedd fy Strategaeth 2019 yn nodi fy uchelgais i Gymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo, ac mae hyn yn rhywbeth y dylem fod yn anelu ato o hyd.

Ond mae'n bwysig cydnabod bod y pandemig wedi atal cynnydd mewn nifer o feysydd allweddol ym mywydau pobl hŷn ac wedi creu problemau a heriau newydd y mae angen delio â nhw. Rhaid i ni hefyd gydnabod bod llawer o'r materion hyn yn seiliedig ar fethiannau posibl i gynnal hawliau pobl, sy'n adlewyrchu'r diffyg gwerth a roddir yn aml ar fywydau pobl hŷn a'r cyfraniad a wnânt i'n bywydau.

Yn ogystal â pharhau i weithredu ar draws y tri maes blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth 2019 – rhoi diwedd ar wahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda – rwyf hefyd wedi bwrw ymlaen â chamau gweithredu o dan faes blaenoriaeth ychwanegol: Diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.

Ar ben hynny, mae estyn allan at bobl hŷn ledled Cymru ac ymgysylltu â nhw yn dal yn flaenoriaeth i mi a'm tîm gan ei bod yn hanfodol bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u hateb gan wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau a'u defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu polisïau a gwasanaethau.

Mae fy Strategaeth hefyd yn sail i fy Rhaglen Waith 2022-24, sy'n nodi'r gwaith y byddaf yn ei wneud yn ystod y ddwy flynedd nesaf i adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud eisoes a sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru yn cael eu gwerthfawrogi, bod hawliau'n cael eu cynnal ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

2021-22 – Cipolwg o'r Flwyddyn

Ebrill 2021

Cynnal y sesiwn gyntaf mewn cyfres o sesiynau Bwrdd Crwn ar Hawliau Cartrefi Gofal i ganfod sut i wella hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu â phobl hŷn sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a sut mae sicrhau bod y cymorth priodol ar gael.

Mai

Galwadau am weithredu i alluogi ymweliadau diogel â chartrefi gofal wrth i gyfyngiadau Covid gael eu codi.

Dod â sefydliadau allweddol sy'n gweithio ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd i adnabod y camau y mae angen eu cymryd i gefnogi iechyd a lles pobl hŷn wrth i ni ddod dros bandemig Covid-19.

Mehefin

Lansio cyfeiriadur o wasanaethau cymorth i helpu pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin, neu'r rheini sy'n wynebu'r risg o hynny, i ddod o hyd i'r wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Cyhoeddi adroddiad sy'n edrych ar sut mae pobl hŷn yn cael eu portreadu yn y cyfryngau, sy'n canfod bod dwy ran o dair o straeon newyddion am bobl hŷn yn eu portreadu mewn ffordd negyddol.

Gorffennaf

Dod â grwpiau a mudiadau sy'n cynrychioli pobl hŷn o gymunedau Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at ei gilydd i ddod o hyd i gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i gasglu tystiolaeth a data hanfodol am brofiadau pobl hŷn o'r cymunedau hyn.

Gweithio gydag Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr i ddod o hyd i gyfleoedd i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i newyddiadurwyr ar sut i osgoi gwahaniaethu ar sail oedran mewn straeon newyddion.

Awst

Cyhoeddi Trafnidiaeth i Wasanaethau Iechyd, adroddiad sy'n nodi sut y gall problemau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac ailgynllunio gwasanaethau effeithio ar fynediad pobl hŷn at ofal iechyd.

Publishes briefing paper setting out the ways in which evidence in the report has influenced the Welsh Government's Llwybr Newydd Transport Strategy.

Medi

Darparu sesiynau hyfforddi Rhoi Diwedd ar Wahaniaethu ar Sail Oedran ar-lein i helpu pobl hŷn i adnabod achosion o hynny a'u grymuso i herio gwahaniaethu ar sail oedran.

Cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu gyda phobl hŷn i glywed eu barn a'u profiadau o ailgysylltu â'u cymunedau.

Hydref

Cyhoeddi Adroddiad Cyflwr y Genedl, sy'n dod â data allweddol sy'n ymwneud â phrofiadau pobl o heneiddio yng Nghymru at ei gilydd.

Croesawu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, sy'n canolbwyntio'n gryf ar wneud Cymru'n genedl o gymunedau sy'n ystyriol o oedran yn dilyn galwadau gan y Comisiynydd.

Tachwedd

Cyhoeddi canllawiau ffurfiol i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw mewn byd sy'n gynyddol ddigidol, a bod pobl hŷn sydd eisiau mynd ar-lein yn cael cymorth i wneud hynny.

Tynnu sylw at y camau sy'n cael eu cymryd gan bobl hŷn i ddiogelu'r amgylchedd er mwyn herio rhagdybiaethau gwahaniaethu ar sail oedran cyn Uwchgynhadledd COP26.

Rhagfyr

Comisiynu ymchwil i archwilio'r rhwystrau a allai atal dynion hŷn rhag cael eu cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin rhag gofyn am help, a'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael.

Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu taflen newydd i roi gwybodaeth i bobl hŷn am gadw'n iach yn y gaeaf ac awgrymiadau ar gyfer mynd allan eto.

Ionawr

Cyhoeddi canllawiau i newyddiadurwyr ar ysgrifennu am bobl hŷn a heneiddio, sydd wedi'i gynnwys yn hyb adnoddau IPSO, Rheoleiddiwr y Wasg, ar gyfer newyddiadurwyr.

Mynegi pryderon am effaith costau byw sy'n cynyddu'n gyflym a galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i bobl hŷn.

Chwefror

Galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bydd pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag yr argyfwng costau byw.

Cyflwyno'r brif araith yng nghynhadledd gyntaf Wythnos Pontio Cenedlaethau'r Byd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o'r byd, gan dynnu sylw at bwysigrwydd undod rhwng cenedlaethau.

Mawrth 2022

Galw ar y Prif Weinidog i gymryd camau pellach i gefnogi pobl hŷn y mae rhyfel Wcráin yn effeithio arnynt, mewn partneriaeth â sefydliadau pobl hŷn eraill o bob cwr o'r DU.

Dosbarthu canllaw i helpu cyrff cyhoeddus i osgoi gwahaniaethu ar sail oedran yn eu deunyddiau cyfathrebu, gan roi arweiniad ar iaith, tôn a delweddaeth.

2021-22 mewn rhifau

408 Nifer y bobl hŷn a gefnogir gan Dîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd

45 Nifer y sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd neu a fynychwyd gan y Comisiynydd a'i thîm i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn. Cymerodd cyfanswm o 595 o bobl hŷn ran yn y sesiynau hyn

70 Eitemau newyddion yn ymwneud â gwaith y Comisiynydd

168,795 Nifer y bobl a gyrhaeddwyd gyda negeseuon o Dudalen Facebook y Comisiynydd

604,400 Nifer yr argraffiadau Twitter (nifer o weithiau gwelwyd trydariadau gan y Comisiynydd) yn ystod 2021-22

538m Eitemau newyddion 'Cyfleoedd i weld' sy'n ymwneud â gwaith y Comisiynydd ar draws ystod eang o gyhoeddiadau

£3.9m Gwerth hysbysebu cyfatebol y sylw a roddwyd i'r Comisiynydd ar y newyddion

Adroddiad Blynyddol



Cyflawni fy mlaenoriaethau

Gan adlewyrchu'r materion sy'n ymwneud â hawliau pobl hŷn a welwyd drwy gydol y pandemig, roedd fy ngwaith yn ystod 2021-2022 yn cynnwys maes blaenoriaeth newydd – diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn – ochr yn ochr â fy mlaenoriaethau craidd eraill o roi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda. Mae'r gwaith a gyflawnir o dan bob un o'r blaenoriaethau hyn wedi'i nodi isod.

Ochr yn ochr â hyn, rwyf hefyd wedi parhau i graffu a dylanwadu ar gamau gweithredu a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod y polisi a'r arferion cywir ar waith fel bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, eu bod yn gallu cymryd rhan yn ein cymunedau ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae hyn wedi cynnwys galw am amrywiaeth o gamau adfer tymor byr i gefnogi pobl hŷn wrth i ni adfer ar ôl y pandemig a delio â'r argyfwng o ran costau byw, yn ogystal â chamau gweithredu tymor hwy i fynd i'r afael â'r materion strwythurol ehangach sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru ac a gafodd eu gwaethygu gan Covid-19.

Mae ymgysylltu â phobl hŷn hefyd wedi parhau i fod yn flaenoriaeth a thrwy gydol 2021-22 fe wnes i gynnal sesiynau ymgysylltu rheolaidd i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am eu pryderon, unrhyw broblemau a heriau maen nhw'n eu hwynebu a'u safbwyntiau ar y camau sydd eu hangen i gyflawni gwelliannau. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau penodol a oedd yn edrych ar iechyd meddwl pobl hŷn ac ailgysylltu â'n cymunedau, materion allweddol a oedd yn effeithio ar bobl hŷn wrth i gyfyngiadau Covid ddechrau llacio.

Diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn

Mae profiadau pobl hŷn yn ystod y pandemig wedi dangos bod llawer o waith i'w wneud o hyd nes bydd hawliau a dulliau seiliedig ar hawliau wedi'u gwreiddio ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, roedd nifer o'r materion a welsom yn ystod y cyfnod hwn wedi tynnu sylw at y ffaith bod hawliau rhai pobl hŷn – fel pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal – yn ddiffygiol iawn o'u cymharu â gweddill cymdeithas.

Drwy gydol 2021-22, mae fy ngwaith ar hawliau pobl hŷn wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol i nodi a bwrw ymlaen â'r newid sydd ei angen i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo, yn ogystal â datblygu gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer pobl hŷn a chyrff cyhoeddus.

Roedd y gwaith yn ystod 2021-22 yn cynnwys:

- Dod â sefydliadau allweddol o bob cwr o Gymru a'r DU at ei gilydd – gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Fforwm Gofal Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon, Gofal yr Alban, Age UK ac eraill – am gyfres o sesiynau bwrdd crwn i nodi a dechrau gweithredu i wella hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ar draws y meysydd allweddol canlynol:
    - Cynyddu sicrwydd deiliadaeth preswylwyr drwy ddatblygu contract sy'n seiliedig ar hawliau a thrwy gryfhau gwarchodaeth gyfreithiol;
    - Creu canllawiau newydd ar ymweld â chartrefi gofal sy'n seiliedig ar fframwaith cyfreithiol Hawliau Dynol;
    - Gweithio gyda rheoleiddwyr y gwasanaeth a'r gweithlu i wreiddio Hawliau Dynol mewn fframweithiau arolygu ac o fewn ymarfer gofal cymdeithasol;
    - Cynyddu ymwybyddiaeth preswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd o'u hawliau;
    - Cynyddu mynediad preswylwyr cartrefi gofal at eiriolaeth annibynnol, yn enwedig i'r preswylwyr hynny heb deulu na ffrindiau;
    - Datblygu dull strategol o ddefnyddio data cwynion i wella ymarfer.
- Datblygu canllaw newydd ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a'u teuluoedd, sy'n darparu gwybodaeth am yr hawliau sydd ganddynt yn ystod gwahanol gamau o'u taith gofal, a sut mae'r hawliau hyn yn berthnasol i wahanol ddeddfwriaethau.
- Sefydlu Grŵp Cynghori Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o sefydliadau a rhwydweithiau allweddol i gefnogi fy ngwaith i gofnodi profiadau go iawn pobl hŷn Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, nad ydynt yn aml yn cael eu cofnodi gan ffynonellau data presennol, er mwyn sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar eu bywydau yn cael eu deall yn well gan wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau.

- Cychwyn gwaith cychwynnol ar brosesau Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw a Peidio â Cheisio CPR (DNACPR) i nodi meysydd y gallai fod angen eu gwella i sicrhau yr ymgynghorir yn briodol â phobl pan fydd angen gwneud y penderfyniadau hyn.

- Dylanwadu ar ganllawiau i ymwelwyr â chartrefi gofal fel aelod o grŵp cynghori Llywodraeth Cymru, sydd wedi sicrhau bod y Canllawiau wedi ymgorffori hawliau dynol a'u bod yn canolbwyntio mwy ar yr angen i gydbwyso risg Covid â llesiant preswylwyr.

- Ymgysylltu â Grŵp Rhanddeiliaid Cryfhau Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn rhan allweddol o drafodaethau ar hawliau dynol yng Nghymru.

- Cyhoeddi canllawiau ffurfiol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i sicrhau bod hawliau pobl i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw mewn byd sy'n gynyddol ddigidol yn cael eu cynnal, a bod pobl hŷn sydd eisiau mynd ar-lein yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

- Cyhoeddi taflen wybodaeth ar gyfer pobl hŷn ochr yn ochr â fy nghanllawiau ffurfiol i sicrhau bod pobl hŷn yn deall yr hawliau sydd ganddynt i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw, a sut dylai hyn edrych yn ymarferol. Dosbarthwyd oddeutu 10,000 copi o'r daflen ledled Cymru hyd yma.

Rhoi diwedd ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oed

Mae gwahaniaethu ar sail oed yn sail i lawer o'r materion sy'n wynebu pobl hŷn, gyda stereoteipiau a thybiaethau am fynd yn hŷn yn aml yn arwain at driniaeth annheg a gwahaniaethu, ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd eu hangen ar bobl i'w helpu i heneiddio'n dda.

Roedd fy ngwaith ar fynd i'r afael ag oedraniaeth yn ystod 2021-22 yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth i gyflwyno'r achos dros weithredu i fynd i'r afael ag oedraniaeth yn y cyfryngau, datblygu adnoddau ymarferol ar gyfer newyddiadurwyr a gweithwyr proffesiynol, a grymuso pobl hŷn i adnabod a herio oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran.

Roedd y gwaith yn ystod 2021-22 yn cynnwys:

- Cyhoeddi canfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd gennyf i'r portread o bobl hŷn yn y cyfryngau newyddion, a ganfu fod dwy ran o dair o erthyglau am bobl hŷn yn negyddol o ran naws neu gynnwys. Mae tystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad wedi cael ei defnyddio i gefnogi galwad y Comisiynydd ar i reoleiddiwr y wasg IPSO i ddiweddaru ei god golygyddion i gynnwys oed fel 'nodwedd warchodedig', ac ymgysylltu ag Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr i archwilio cyfleoedd ac adnoddau hyfforddi ar gyfer newyddiadurwyr a myfyrwyr newyddiaduraeth.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Heneiddio'n Well i gyhoeddi canllawiau i newyddiadurwyr ar ysgrifennu am henaint a heneiddio, gan gynnwys gwybodaeth ac awgrymiadau ar iaith, naws a delweddau. Mae'r canllaw bellach wedi'i gynnwys ar hyb adnoddau IPSO ar gyfer newyddiadurwyr.
- Datblygu canllaw newydd i weithwyr proffesiynol, sy'n cynnwys awgrymiadau ymarferol i'w helpu i osgoi gwahaniaethu ar sail oedran mewn cyfathrebu, yn ogystal ag enghreifftiau o arferion da. Dosbarthwyd y canllaw hwn i gyrff cyhoeddus a phartneriaid rhanddeiliaid ledled Cymru.
- Darparu rhagor o sesiynau hyfforddi i rymuso pobl hŷn i adnabod a herio oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, darparu gwybodaeth am ddeddfwriaeth allweddol, a manylion sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth.
- Cefnogi ailsefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau i hyrwyddo undod a dealltwriaeth rhwng cenedlaethau, sy'n hanfodol i herio stereoteipiau a thybiaethau sy'n aml yn arwain at oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran.

Atal cam-drin pobl hŷn

Mae cam-drin yn effeithio ar filoedd o bobl hŷn ac mae tystiolaeth bod y pandemig wedi arwain at fwy o gam-drin, ar yr un pryd â chreu rhwystrau i bobl sy'n ceisio cymorth a chefnogaeth.

Drwy gydol 2021-22, roeddwn yn parhau i weithio gydag aelodau o'm Grwpiau Gweithredu a Llywio Atal Cam-drin, a sefydlais yn 2020, i rannu gwybodaeth, lledaenu gwybodaeth a negeseuon allweddol ledled Cymru a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar draws y meysydd allweddol canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Gwella cefnogaeth a gwasanaethau
- Cynnal ymchwil a gwella data
- Casglu lleisiau a phrofiadau pobl hŷn
- Cefnogi staff drwy hyfforddiant a chefnogaeth
- Dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth

Un o brif elfennau fy ngwaith yn ymwneud â cham-drin yn ystod 2021-22 oedd mynd i'r afael â bylchau yn y dystiolaeth sy'n ymwneud â phrofiadau pobl hŷn o gam-drin, i gefnogi camau gweithredu i wella'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael, yn ogystal â chreu adnoddau newydd i gysylltu pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin â chymorth a chefnogaeth hanfodol.

Roedd y gwaith yn ystod 2021-22 yn cynnwys:

- Cyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil a gomisiynwyd gennyf i archwilio cymorth a gwasanaethau i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yng Nghymru, a oedd yn cynnwys ymarfer mapio cynhwysfawr i ganfod argaeledd a'r mathau o wasanaethau cymorth cam-drin sy'n cael eu darparu yng Nghymru. Roedd yr ymchwil hefyd yn cofnodi profiadau pobl hŷn i ddangos realiti cael gafael ar wasanaethau, enghreifftiau o arferion da, a'r materion, yr heriau a'r rhwystrau sy'n gallu effeithio ar bobl hŷn a'u hatal rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt.
- Galw am ystod o gamau gweithredu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad, gan gynnwys:
    - Adolygu polisïau a gweithdrefnau presennol i sicrhau eu bod yn gynhwysol ac nad ydynt yn gwthio pobl hŷn i'r cyrion yn anfwriadol na chreu rhwystrau ychwanegol iddynt i gael gafael ar wybodaeth a chymorth.
    - Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o natur ac effaith cam-drin, gan gynnwys cam-drin ariannol.
    - Casglu data'n well i sicrhau bod profiadau pobl hŷn o gam-drin a'r materion, yr heriau a'r rhwystrau sy'n atal pobl hŷn y mae cam-drin yn effeithio arnynt rhag cael cymorth yn cael eu deall yn well gan wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau
    - Hyfforddiant ar brofiadau pobl hŷn o gam-drin i'w gynnwys yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

- Archwilio canfyddiadau'r ymchwil a'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fwrw ymlaen â'r camau gweithredu gofynnol a nodwyd yn fy adroddiad mewn digwyddiad gweminar ar raddfa fawr a fynychwyd gan dros 200 o bobl. Fel rhan o'r digwyddiad, clywodd y cynadleddwyr gan un sydd wedi goroesi cam-drin domestig am ei phrofiadau, yn ogystal â gan Gomisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr, Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o sefydliadau cam-drin domestig allweddol, a oedd yn tynnu sylw at y gwahanol ffyrdd y byddent yn defnyddio fy nghanfyddiadau i gefnogi eu gwaith.

- Lansio cyfeiriadur ar-lein i alluogi pobl hŷn (yn ogystal â'u teulu a'u ffrindiau, a gweithwyr proffesiynol) i chwilio'n hawdd am wasanaethau a chymorth yn eu hardal leol a all eu helpu os ydynt yn cael eu cam-drin, os ydynt yn poeni y gallent fod mewn perygl, neu'n poeni am rywun arall.

- Cyhoeddi taflen wedi'i hanelu at bobl hŷn – Mynnwch Help, Cadwch yn Ddiogel – i roi gwybodaeth am arwyddion cam-drin, lle gall pobl fynd am help a chefnogaeth, a'r camau y gall pobl eu cymryd os ydynt yn poeni am rywun arall. Dosbarthwyd dros 17,000 o gopïau o'r daflen hyd yma ledled Cymru.

- Comisiynu ymchwil i gofnodi profiadau dynion sydd wedi goroesi cam-drin domestig ac archwilio'r rhwystrau a allai atal dynion hŷn rhag gofyn am gymorth a chefnogaeth a chael gafael ar gymorth a chefnogaeth os ydynt yn cael eu cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin (adroddiad i fod i gael ei gyhoeddi yn ystod Haf 2022).

- Cynghori Llywodraeth Cymru ar ffocws, cynnwys a negeseuon allweddol ei hymgyrch i godi ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn, a ddatblygwyd mewn ymateb i'r galwadau am gamau gweithredu a wneuthum pan gyhoeddais fy adroddiad ar wasanaethau cymorth cam-drin.

- Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ddatblygiad y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd a'r Cynllun Cenedlaethol i atal cam-drin pobl hŷn.

Galluogi pawb i heneiddio'n dda

Mae gwneud Cymru'n genedl o gymunedau sy'n ystyriol o oedran yn hanfodol i sicrhau ein bod yn teimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi, ein bod yn cael ein cynnwys a'n bod yn cael ein parchu a'n bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i ni wrth i ni heneiddio – pob un yn ffactor allweddol sy'n ein galluogi i heneiddio'n dda.

Ochr yn ochr â chefnogi awdurdodau lleol ledled Cymru i ddatblygu eu cynlluniau oed-gyfeillgar a'u ceisiadau i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, fe wnes i hefyd fwrw ymlaen a galw am amrywiaeth o gamau gweithredu ar faterion sy'n ein hatal rhag heneiddio'n dda, fel y dirywiad yn iechyd a lles pobl hŷn oherwydd y pandemig, hawliau ariannol heb eu hawlio a thrafnidiaeth i wasanaethau iechyd.

Roedd y gwaith yn ystod 2021-22 yn cynnwys:

- Dylanwadu ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio i sicrhau ffocws cryf ar greu cymunedau sy'n ystyriol o oedran ac adlewyrchu wyth nodwedd neu 'feysydd' mewn cymunedau sy'n ystyriol o oedran Sefydliad Iechyd y Byd.
- Llunio datblygiad sy'n ystyriol o oedran yng Nghymru drwy sefydlu Grŵp Llywio Cymru Oed-Gyfeillgar, sy'n dod â sefydliadau cenedlaethol, pobl hŷn, rhanddeiliaid eraill ac arbenigwyr at ei gilydd i hyrwyddo a dylanwadu ar bolisïau ac arferion sy'n ystyriol o oedran ar lefel genedlaethol ledled Cymru.
- Gwella arferion sy'n ystyriol o oedran drwy sefydlu Cymuned Ymarfer sy'n ystyriol o oedran ledled Cymru, sy'n cefnogi ymarferwyr ledled Cymru i feithrin perthnasoedd cefnogol, rhannu eu dysgu a'u profiadau a goresgyn heriau cyffredin.
- Dod yn Aelod Cyswllt o Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n fy ngalluogi i gefnogi'n uniongyrchol y broses ymgeisio i awdurdodau lleol Cymru ymuno â'r Rhwydwaith Byd-eang, gan gydnabod eu hymrwymiad i fod yn oed-gyfeillgar, a chanfod cyfleoedd dysgu a datblygu gydag Asiantaethau Byd-eang eraill Sefydliad Iechyd y Byd.
- Galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno ymgyrch i annog pobl hŷn i hawlio eu holl hawliadau ariannol, gan gynnwys Credyd Pensiwn, nad oedd £200m ohono wedi cael ei hawlio y llynedd.
- Arwain y gwaith o ddatblygu llyfryn ar gyfer pobl hŷn, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Age Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddarparu gwybodaeth am ffyrdd o gadw'n iach yn ystod misoedd y gaeaf, awgrymiadau defnyddiol ar gyfer mynd yn ôl i'r gymuned ar ôl y cyfyngiadau symud, a manylion cyswllt sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth a chefnogaeth.
- Dod â sefydliadau allweddol sy'n gweithio ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd ar gyfer sesiwn bord gron sy'n canolbwyntio ar bennu'r camau sydd eu hangen i atal dirywiad pellach yn iechyd a lles pobl hŷn, a chefnogi ail-alluogi pobl hŷn wrth i ni ddod dros y pandemig.

- Gan ddefnyddio canfyddiadau'r sesiwn hon fel sylfaen ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru GIG Cymru i ddarparu tystiolaeth wedi'i chostio ar fanteision buddsoddi mewn mentrau sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, a rôl hollbwysig sefydliadau cymunedol a thrydydd sector o ran cefnogi'r mentrau hyn. Roedd hyn yn dylanwadu ar y cyllid newydd a ddarparwyd ar gyfer y gweithgaredd hwn yn ystod gaeaf 2021/2.

- Cyhoeddi canfyddiadau fy ymchwil Trafnidiaeth i Iechyd, a oedd yn nodi anawsterau a rhwystrau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a all atal pobl hŷn rhag cael gafael ar wasanaethau iechyd hanfodol. Gan fod Covid wedi oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad, cyhoeddais ddiweddariad ochr yn ochr â'r adroddiad i dynnu sylw at y ffyrdd yr oeddwn wedi defnyddio'r dystiolaeth i ddylanwadu ar ddatblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag agenda moderneiddio Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

- Cyhoeddi Straeon y Gaeaf, adroddiad a oedd yn cofnodi profiadau pobl hŷn yn ystod misoedd y gaeaf yn eu geiriau eu hunain. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y problemau a'r heriau roeddent yn eu hwynebu, yn ogystal â'r pethau a wnaeth wahaniaeth cadarnhaol.

- Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i bobl hŷn wrth i ni wynebu'r argyfwng costau byw, a chyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer gaeaf 2022-23 i sicrhau bod pobl hŷn sydd angen cymorth yn gallu cael yr help sydd ei angen arnynt.

Cyflwr y Genedl

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddais fy ail adroddiad ar Gyflwr y Genedl, sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth eang o ddata, tystiolaeth ac ymchwil i roi trosolwg manwl o brofiadau pobl o fynd yn hŷn yng Nghymru ac i asesu sut mae pethau wedi newid ers cyhoeddi fy Adroddiad cyntaf ar Gyflwr y Genedl ym mis Hydref 2019.

Mae'r adroddiad wedi canfod bod iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn wedi dirywio'n sylweddol oherwydd y pandemig, a bod cael gafael ar wasanaethau yn y gymuned – yn enwedig gwasanaethau iechyd a gofal – wedi bod yn arbennig o anodd i bobl hŷn. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys rhai ystadegau sy'n ymwneud â phrofiadau pobl hŷn:

- **Dim ond 59% o bobl hŷn oedd yn teimlo fel aelod gwerthfawr o gymdeithas ers dechrau'r pandemig**
- **Mae 91,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn gyson unig, ac mae 75% o bobl hŷn nawr yn dweud eu bod yn teimlo'n unig o dro i dro (i fyny o 49% yn 2019)**
- **Dim ond 23% o bobl hŷn oedd yn ei chael yn hawdd cael gafael ar wasanaethau iechyd ar-lein**
- **Mae 80% o ofalwyr di-dâl nawr yn darparu mwy o ofal na chyn i'r pandemig ddechrau**
- **Dim ond 35% o'r cyflogwyr a holwyd fyddai'n fodlon llogi a chynnig hyfforddiant i rywun dros 55 oed mewn diwydiant newydd**
- **Mae 64% o bobl hŷn wedi riportio ymdrechion i geisio eu twyllo'n ariannol neu i roi gwybodaeth bersonol**

Yn yr adroddiad, nodais fy mhryderon bod cynnydd o ran mynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn mewn perygl sylweddol, ac y bydd iechyd, annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl hŷn yn dioddef heb weithredu ar draws cymdeithas.

Er mwyn annog a chefnogi camau gweithredu ledled Cymru i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy adroddiad, cynhaliais weminar a fynychwyd gan dros 250 o gynrychiolwyr yn gweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'r trydydd sector. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sesiwn panel trawsbleidiol gyda gwleidyddion i drafod fy nghanfyddiadau ac effaith y pandemig ar bobl hŷn, yn ogystal â'r ffyrdd y gallwn sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl wrth i ni symud ymlaen.

Rwyf hefyd wedi gweithio gydag awdurdodau lleol yn Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Sir Benfro ac Ynys Môn i sefydlu canolfannau lleol i alluogi pobl hŷn nad oeddent ar-lein i gymryd rhan yn y digwyddiad ac ymuno â'r drafodaeth a'r ddadl.

Darparu Cyngor a Chymorth i bobl hŷn

Yn ystod 2021-22, darparodd fy Nhîm Cyngor a Chymorth gymorth a chefnogaeth i 408 o bobl hŷn, naill ai'n uniongyrchol neu drwy aelodau o'r teulu ac eraill a gysylltodd â'r tîm ar ran person hŷn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymholiadau a dderbyniwyd gan y Tîm Cyngor a Chymorth yn ymwneud â materion iechyd a gofal cymdeithasol (48%).

Dyma grynodeb o'r prif faterion iechyd a gofal cymdeithasol y cysylltwyd â mi amdanynt:

Iechyd

- Heriau wrth ymweld ag ysbytai oherwydd cyfyngiadau covid – sy'n cael eu dwysau gan gyfathrebu gwael rhwng wardiau ysbyty ac anwyliaid pobl hŷn.
- Oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty – problemau gyda sicrhau pecyn gofal priodol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y person hŷn pan fyddant yn dychwelyd adref.
- Anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau meddygon teulu a deintyddion.

Gofal

- Ymweld â chartrefi gofal – pryderon a godwyd ynghylch defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru ar ymweld â chartrefi gofal yn ystod y pandemig, gan gyfeirio'n benodol at anghenion preswylwyr cartrefi gofal sydd â rhwystrau cyfathrebu a allai gael trafferth cyfathrebu drwy ddulliau amgen.
- Diffyg gofal cartref – effaith ar les pobl hŷn nad ydynt yn cael eu hanghenion gofal a chymorth, a'r effaith ar eu gofalwyr di-dâl sy'n ei chael hi'n anodd llenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth.
- Tynnu gofal cartref yn ôl – pan fydd darparwyr yn rhoi'r gorau i ddarparu pecyn gofal cartref, bydd y person hŷn sy'n derbyn y gofal yn cael ei adael yn agored i niwed, yn enwedig o ystyried diffyg darpariaeth amgen.

Rhoddodd y tîm gymorth hefyd ar faterion eraill yn ymwneud â chyllid, tai, y gymuned, cam-drin a thrafnidiaeth.

Wrth ddarparu cymorth i bobl hŷn, mae fy nhîm Cyngor a Chymorth yn canolbwyntio'n gryf ar helpu pobl i ddeall eu hawliau a'r ffyrdd gorau o orfodi'r hawliau hynny, yn dibynnu ar eu sefyllfa.

Mae'r profiadau sy'n cael eu rhannu gan bobl hŷn a'u teuluoedd yn rhoi cipolwg hollbwysig ar

yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn a'r effaith y mae polisi ac ymarfer ledled Cymru yn ei chael ar eu bywydau. Mae hyn wedi fy ngalluogi i nodi materion allweddol ac enghreifftiau lle nad yw hawliau pobl wedi cael eu cynnal ac mae'n darparu tystiolaeth bwysig i gefnogi fy ngalwadau am weithredu gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy fy nhîm Cyngor a Chymorth hefyd yn helpu i lywio a siapio fy ngwaith, fy mlaenoriaethau a fy nghynlluniau fel Comisiynydd, gan gynnwys datblygu fy Rhaglen Waith ar gyfer 2022-24.

Estyn allan at bobl hŷn ac ymgysylltu â nhw

Drwy gydol 2021-22, fe wnes i barhau i ymgysylltu'n rheolaidd â phobl hŷn ledled Cymru i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am eu profiadau ac am unrhyw faterion a heriau maen nhw'n eu hwynebu, yn ogystal â'u safbwyntiau ar y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r rhain.

Roedd hyn yn cynnwys sesiynau penodol a oedd yn canolbwyntio ar effaith y pandemig ar iechyd meddwl pobl hŷn a'r cymorth sydd ei angen wrth i ni symud ymlaen, yn ogystal â sesiynau i gofnodi profiadau pobl hŷn o ail-ymgysylltu â'u cymunedau wrth i'r cyfyngiadau lacio, a'r anawsterau roeddent yn eu hwynebu wrth wneud hynny.

Rwyf wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd â Chadeiryddion grwpiau pobl hŷn allweddol – Cymru Egnïol, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol a Senedd Pobl Hŷn Cymru a Fforwm Pensiynwyr Cymru – i glywed ganddynt am brofiadau eu haelodau a rhannu gwybodaeth a diweddariadau allweddol.

Rwyf hefyd wedi defnyddio fy sianeli cyfryngau cymdeithasol – Facebook yn benodol, sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl hŷn – i estyn allan at bobl hŷn a gofyn iddynt rannu eu profiadau a darparu gwybodaeth am fy ngwaith a'r prif faterion sy'n effeithio ar fy mywyd.

Mae'r ymgysylltu hwn nid yn unig yn helpu i arwain fy ngwaith fel Comisiynydd, ond mae hefyd yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u gweithredu gan wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau, gan gefnogi fy ngwaith i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion ledled Cymru.

Ymgysylltu â Sefydliadau sy'n Rhanddeiliaid

Drwy gydol 2021-22, fe wnaeth fy nhîm a minnau barhau i ymgysylltu â sefydliadau ledled Cymru ac yn ehangach, er mwyn rhannu gwybodaeth, lledaenu negeseuon allweddol, a chasglu tystiolaeth a data am brofiadau pobl hŷn.

Roedd hyn yn cynnwys dod â sefydliadau allweddol at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau bwrdd crwn, aelodaeth o rwydweithiau a grwpiau cynghori, cwrdd ag unigolion i drafod materion penodol a chyflwyno areithiau ar bynciau allweddol – fel hawliau pobl hŷn a'n hadferiad o'r pandemig – mewn digwyddiadau cynadleddau a gweminarau. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i mi ddylanwadu ar drafodaethau a dadleuon, a dylanwadu ar syniadau a phenderfyniadau, ar faterion allweddol sy'n ymwneud â fy mlaenoriaethau – ar lefel Cymru, y DU a rhyngwladol.

O ganlyniad i'r ymgysylltu parhaus hwn, mae llawer iawn o ddiddordeb a chefnogaeth wedi bod o hyd i rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r effaith gadarnhaol y mae fy ngwaith craffu a herio yn ei chael ar fywydau pobl hŷn, yn ogystal ag ymgyrchoedd newydd ar gyfer rolau tebyg sydd i'w sefydlu yn Lloegr a'r Alban.

Rwyf hefyd wedi cynnal ac adeiladu ar bartneriaethau newydd a sefydlwyd yn ystod y pandemig i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig a strategol i fynd i'r afael â materion allweddol ac i ddarparu cyfleoedd i godi pryderon gyda llais cyfunol pwerus.

Yn ogystal â gwaith parhaus gyda'r Grwpiau Llywio a Gweithredu ar Atal Cam-drin (a amlygir uchod), rwyf wedi parhau i arwain Rhwydwaith y DU o sefydliadau pobl hŷn allweddol ledled y DU, gan gynnwys Independent Age, Age Scotland a Chomisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon. Gan weithio mewn partneriaeth, mae'r grŵp wedi edrych ar nifer o faterion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn – fel hawliau, ein hadferiad o'r pandemig a'r argyfwng-cost-byw – ac wedi cyhoeddi datganiadau ar y cyd yn galw am gamau gweithredu gan y llywodraeth.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus eraill

Drwy gydol 2021-22, rydw i wedi parhau i ymgysylltu a gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ond dydw i ddim wedi oedi cyn eu dal i gyfrif pan rydw i wedi teimlo bod camau gweithredu'n annigonol i ddiogelu a chefnogi pobl hŷn, ac wedi codi pryderon yn gyhoeddus lle bo angen i alw am newid a gwelliannau.

Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd rheolaidd â'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi fy ngalluogi i godi materion sy'n peri pryder i bobl hŷn yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru a nodi'r camau gweithredu y mae pobl hŷn eu heisiau a'u hangen.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol i rannu fy rhaglen waith a'm blaenoriaethau fel Comisiynydd.

Rwyf hefyd wedi cwrdd ac wedi ymgysylltu'n rheolaidd â sefydliadau allweddol eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae hyn wedi fy ngalluogi i drafod y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, lleisio pryderon a gofyn am weithredu lle bo angen, yn ogystal â nodi cyfleoedd i gydweithio er budd pobl hŷn.

Ochr yn ochr â'r ymgysylltu hwn, mae aelodau o fy nhîm wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o fyrddau a rhwydweithiau cynghori sy'n canolbwyntio ar ymateb Cymru i'r pandemig a materion ehangach i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u deall, a'u bod yn cael eu defnyddio i siapio polisïau ac arferion ac wedi ymateb i ymgynghoriadau allweddol sy'n rhoi sylw i faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn.

Ar ôl sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng y Cenedlaethau ddiwedd 2020, rwyf wedi parhau i weithio gydag Aelodau'r Senedd, ymchwilwyr academaidd allweddol, ymarferwyr sydd â phrofiad o redeg prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chynrychiolwyr pobl hŷn ac iau, i gefnogi camau gweithredu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng cenedlaethau a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau pontio'r cenedlaethau. Mae'r grŵp yn gweithio i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar draws pedwar maes blaenoriaeth: mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd; cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes; mynd i'r afael ag oedraniaeth; a sgiliau a'r economi.

Gweithio gyda'r cyfryngau

Rwyf wedi cynnal presenoldeb cryf yn y cyfryngau drwy gydol 2021-22, gan gyhoeddi datganiadau i'r wasg ar amrywiaeth eang o faterion, a gweithio gyda'r cyfryngau ledled Cymru a'r DU i godi pryderon, cynnig gwybodaeth a sylwadau, a nodi'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion a'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn.

Mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf eu bod yn gwerthfawrogi fy ngweld i'n hyrwyddwr lleisiol dros eu hawliau ac yn mynegi pryderon yn gyhoeddus am y materion sy'n effeithio arnyn nhw, ac mae nifer o bobl hŷn a'u teuluoedd hefyd wedi dweud wrth fy nhîm Cyngor a Chymorth eu bod wedi cysylltu â mi o ganlyniad i gael cyfweliad â mi.

Roedd fy ngwaith gyda'r cyfryngau yn cynnwys cyfweliadau â rhaglenni newyddion ar radio a theledu, yn ogystal â sylw mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol, gan gynnwys The Telegraph, Independent a Daily Express. Mae cyhoeddiadau eraill yn y DU hefyd wedi cyhoeddi erthyglau am yr angen am Gomisiynydd Pobl Hŷn yn Lloegr a'r Alban, gan dynnu sylw at fy rôl a'i effaith.

Ochr yn ochr â hyn, ysgrifennais erthyglau a blogiau ar gyfer cyhoeddiadau a gwefannau rhanddeiliaid i lywio trafodaeth a dadl ar bynciau fel hawliau pobl hŷn, manteision cymunedau oed-gyfeillgar, mynd i'r afael â rhagfarn ar sail oedran yn y cyfryngau, gofal cymdeithasol, byw â dementia, gofalwyr di-dâl, pobl hŷn a newid yn yr hinsawdd, cynhwysiant digidol a diogelwch ar-lein.

Yn ystod 2021-2022, cafodd fy ngwaith sylw mewn 70 o eitemau newyddion ar draws cyfryngau print, radio a theledu, a arweiniodd at dros 538,000,000 o 'gyfleoedd i weld', a gwerth hysbysebu sy'n cyfateb i £3.9 miliwn.

Edrych Ymlaen

Mae'n anrhydedd bod yn Gomisiynydd Pobl Hŷn annibynnol Cymru ac rwy'n falch bod fy nghyfnod yn y swydd wedi cael ei ymestyn am ddwy flynedd arall hyd at fis Awst 2024. Rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r gwaith sydd ar y gweill gyda phobl hŷn a sefydliadau ledled Cymru tuag at y weledigaeth hirdymor o wneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ac wrth ystyried effaith y pandemig ar bobl hŷn, byddaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, bod hawliau'n cael eu cynnal a bod neb yn cael ei adael ar ôl.

Byddaf yn bwrw ymlaen ac yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan fy mhedwar blaenoriaeth sef hawliau, gwahaniaethu ar sail oedran, cam-drin a heneiddio'n dda fel y nodir yn fy Rhaglen Waith 2022-24.

Rwyf hefyd yn ymateb i'r heriau newydd y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, gan gynnwys yr argyfwng o ran costau byw a mynediad at wasanaethau a thriniaethau'r GIG.

Mae llawer o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni ers i mi ddod yn Gomisiynydd yn 2018 wedi bod drwy weithio'n agos gyda phobl hŷn ac mewn partneriaeth â nifer o wahanol sefydliadau ac unigolion ledled Cymru. Mae'r ffordd hon o weithio yn hanfodol i'm dull gweithredu fel Comisiynydd, ac yn enwedig yn y cyfnod heriol hwn. Dim ond drwy gydweithio a defnyddio sgiliau a phrofiadau ein gilydd y byddwn yn gwneud cynnydd ac effaith gynaliadwy.

Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mae gennyf nifer o swyddogaethau statudol sy'n cael eu cefnogi gan gyfres o bwerau cyfreithiol – i ddal cyrff cyhoeddus i gyfrif, i roi cymorth i bobl hŷn, i annog arferion gorau, ac i graffu ar bolisïau a deddfwriaethau sy'n effeithio ar bobl hŷn. Mae'r rhain yn fy ngalluogi i fod yn llais annibynnol ac yn eiriolwr dros bobl hŷn ac rwy'n gwybod pa mor bwysig yw hyn i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Byddaf i a fy nhîm yn parhau i ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i bobl hŷn ledled Cymru, a hoffem ddiolch i bawb rydyn ni'n gweithio gyda nhw am yr ysbrydoliaeth, yr her a'r gefnogaeth maen nhw'n ei darparu.

Mae fy Rhaglen Waith 2022-24, sy'n rhoi rhagor o fanylion am fy nghamau gweithredu a'm canlyniadau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, ar gael yma: https://comisiynyddph.cymru/amdano/strategaeth-y-comisiynydd/.

Adolygiad o gyllid a pherfformiad ariannol

Cyllid

Rwy'n cael fy nghyllido gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, ond yn gweithredu'n annibynnol arnynt. Rwy'n atebol i Brif Weinidog Cymru am ddefnyddio'r adnoddau cyhoeddus sydd ar gael i mi.

Yn ystod 2021-22, dynododd Llywodraeth Cymru bob Corff sy'n Gomisiynydd yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2021. Yn sgil hyn, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi newid i gyllidebu adnoddau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU. Pwrpas y dynodiad yw cysoni'r gyllideb y mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn ei defnyddio i reoli gwariant cyhoeddus â'r gyllideb a gymeradwyir gan y Senedd. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau'r corff dynodedig yn cael eu cynnwys yn y Cynnig Cyllidebol a gymeradwyir gan y Senedd.

Prif effaith y newid hwn ar fy sefydliad i yw na allaf ddefnyddio fy arian wrth gefn yn annibynnol rhagor heb i Lywodraeth Cymru ddarparu'r gyllideb adnoddau gyfatebol ac, os oes angen, yr arian.

Gan fod fy malansau arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yn £398,000, cytunais â Llywodraeth Cymru i ddefnyddio rhywfaint o'r arian hwn i ariannu gwaith yn ystod 2021-22. Yn y dyfodol, bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio fel cyfalaf gweithio.

Mae defnyddio'r balansau arian hanesyddol hyn yn golygu bod cryn amrywiaeth rhwng Gwariant Net 2021-22, sef £1,521,000, a'r arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, sef £1,257,000, hy £264,000.

Yn y cronfeydd wrth gefn statudol ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £48,000 (£312,000: 31 Mawrth 2021).

Perfformiad

Mae Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 2021-22 yn £1,521,000 (2020-21: £1,470,000). Mae'r gwariant net 4% yn llai na'r £1,589,000 o gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, yn bennaf oherwydd arbedion ar fy rhaglen waith ar ddau faes penodol:

- Rwyf wedi comisiynu gwaith ymchwil a fydd yn edrych ar brofiadau dynion hŷn o gam-drin domestig a'r rhwystrau a allai eu hatal rhag gofyn am gymorth a chefnogaeth yng Nghymru. Gan fod hwn yn fater cymhleth, mae'r darn hwn o waith wedi cymryd mwy o amser i'w ddatblygu nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Felly, bydd y gwariant cysylltiedig yn pontio 2021-22 a 2022-23 yn hytrach na 2021-22 yn unig.
- Roeddwn wedi bwriadu comisiynu gwaith ymchwil yn 2021-22 i ddeall yn well y profiad go iawn o heneiddio yng Nghymru o safbwynt pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Ar ôl ymgysylltu â'm Grŵp Cynghori ar Bobl Hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, ac effaith yr amrywiolyn Omicron ar y gallu i ymgysylltu wyneb yn wyneb, penderfynwyd gohirio'r gwaith o gasglu tystiolaeth tan dymor y gwanwyn 2022-23.

Mae'r cyllid sydd ei angen i gyflawni fy swyddogaethau statudol a'm cynllun strategol, gan gynnwys y ddau ddarn o waith, wedi cael ei gynnwys yn fy Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2022-23, a gyflwynwyd i Weinidogion ym mis Hydref 2021.

Crynodeb o'r rhagolwg ariannol

Dros y 24 mis diwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi methu ymgysylltu â phobl hŷn wyneb yn wyneb, ac oherwydd hynny rydyn ni wedi llwyddo i arbed costau mewn meysydd fel teithio ac argraffu. Defnyddiwyd yr arbedion hyn i ymdopi ag unrhyw bwysau chwyddiant sydd wedi digwydd. Fodd bynnag, wrth i fy ngwariant ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig, ni fyddaf yn gallu parhau i ymdopi â'r pwysau chwyddiant hyn.

Nid yw fy nghyllideb wedi cael ei chynyddu i gyfrif am chwyddiant ers 2016 ac mae chwyddiant wedi bod yn 2% y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad termau real mewn grym gwario o 11% dros y chwe blynedd diwethaf. Yn ôl Dadansoddiad Cyllidol Cymru a gynhaliwyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, dros yr un cyfnod mae cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 6% mewn termau real a rhagwelir y bydd yn cynyddu yn 2022-23 mewn termau real o 2.1%.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am fy ngwariant nad yw'n ymwneud â staff dros y tair blynedd diwethaf a'm rhagolwg presennol ar gyfer 2022-23. Mae'n dangos fy mod yn adolygu fy holl wariant yn barhaus ac ers 2019 rwyf wedi llwyddo i leihau fy nghostau nad ydynt yn ymwneud â staff, a bydd yn lleihau ymhellach wrth i mi symud i swyddfa lai ym mis Awst 2023. Fodd bynnag, bydd angen defnyddio'r arbedion hyn i dalu am fy nghostau staff cynyddol.

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Costau cyflogaeth eraill	£26,000	£11,000	£17,798	£21,000
Costau llety	£149,000	£138,000	£149,965	£144,000
Costau TG	£59,000	£58,000	£82,349	£83,000
Ffioedd proffesiynol	£64,000	£69,000	£72,545	£70,000
Gorbenion	£65,000	£48,000	£28,099	£37,000
Costau rhaglenni a ymrwymwyd				
Costau rhaglenni	£112,000	£46,000	£55,385	£74,000
	£475,000	£370,000	£406,591	£429,000

Ers 2017, mae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan fy swyddfa wedi bod yn 20.47 ar gyfartaledd, ac mae'n 20.02 o bobl ar hyn o bryd. Mae costau staff yn cyfrif am 73% o'm gwariant, ac mae costau cyffredinol wedi cynyddu 3% y flwyddyn ar gyfartaledd yn hanesyddol, oherwydd ffactorau fel cynnydd mewn costau byw a chodiadau bandiau cynyddrannol. Cyn hyn, rwyf wedi gallu ymgorffori'r pwysau cost hyn yn fy nyraniad cyllid statig a rheoli'r risg o unrhyw orwariant posibl yn erbyn dyraniad Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio fy arian wrth gefn. Fodd bynnag, ni fydd modd rheoli hyn dros yr hirdymor.

Mae gallu cadw a recriwtio staff profiadol yn hanfodol i sicrhau bod fy ngwaith yn parhau i gael effaith ar bobl hŷn.

Nid yw fy nyraniad cyllid wedi cynyddu ers 2016, ac ni allaf gadw na defnyddio cronfeydd wrth gefn mwyach. Os na fydd fy nghyllid cylchol yn cynyddu, ni fyddaf mewn sefyllfa i gynnal strwythur presennol fy sefydliad. Felly byddaf yn cael fy ngorfodi i adolygu a lleihau nifer y staff yr wyf yn eu cyflogi, a fydd yn cael effaith sylweddol ar fy ngallu i gyflawni fy mlaenoriaethau strategol.

Dolen i'r wefan: Amcangyfrif y Comisiynydd

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
26 Gorffenaf 2022

Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Mae'r swyddfa wedi'i lleoli ar un llawr o adeilad ar brydles yn Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd. Bu'r brydles yn weithredol o 2009 ymlaen a bydd yn dod i ben yn 2023.

Fel tenantiaid, ychydig iawn o ddylanwad sydd gennym dros gynnal a chadw'r adeilad, ac nid oes gennym unrhyw ddylanwad o gwbl dros y cyflenwad a'r ddarpariaeth dŵr. Trydan yw'r unig gyflenwad ynni a ddefnyddir, sy'n darparu golau ac yn pweru offer swyddfa arferol.

Oherwydd pandemig COVID-19, mae fy swyddfa wedi bod ar gau i raddau helaeth ers mis Mawrth 2020, gyda staff yn gweithio gartref yn bennaf a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol. Oherwydd nad yw staff wedi bod yn teithio i'r swyddfa nac i gyfarfodydd, bu gostyngiad sylweddol yn ôl troed carbon y sefydliad.

Mae arferion gweithio o bell wedi arwain at fanteision amgylcheddol cadarnhaol iawn ac wedi rhoi cyfle i staff weithio'n fwy hyblyg a chael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Er mwyn ffurfioli'r dull hwn o weithio, cyflwynwyd polisi gweithio hybrid ym mis Ionawr 2022. Mae'r polisi hwn yn galluogi staff i barhau i wneud penderfyniadau am eu hamgylchedd gwaith a'u presenoldeb yn y swyddfa. Bydd y dull hwn o weithio'n cael ei fonitro dros y deuddeg mis nesaf er mwyn i ni gael sylfaen dystiolaeth ar gyfer maint a lleoliad swyddfa newydd.

Ers mis Mawrth 2020, bu gostyngiad dramatig yn y gwastraff sy'n cael ei waredu o'r swyddfa, a hynny gan mai nifer bach o staff sy'n defnyddio'r swyddfa, am gyfnodau byr. Mae hyn wedi bod yn wir hefyd am y papur a anfonir i'w ailgylchu, gan fod yr holl staff wedi bod yn gweithio mewn ffordd fwy di-bapur. Mae'r defnydd o ynni hefyd wedi bod yn fach iawn gan nad yw cyfrifiaduron a goleuadau yn y swyddfa wedi cael eu defnyddio i'r fath raddau.

Mae'n bleser gennyf ddweud ein bod wedi llwyddo i ddal ein gafael ar Wobr Iechyd y Gweithle Bach – Lefel Aur – ym mis Medi 2021. Mae'r Wobr hon yn rhoi strwythur ar gyfer gwella perfformiad cynaliadwyedd y sefydliad yn barhaus.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- **Y 'Tîm Gwyrdd'** – yn ystod 2021, sefydlais 'Dîm Gwyrdd', sef gweithgor mewnol sy'n mynd ati i rannu a hyrwyddo syniadau gyda chydweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth yn y cartref ac yn y gweithle.

- **Arferion gweithio** – drwy Bolisi Gweithio Hybrid, mae'r staff yn gallu gwneud penderfyniadau am eu man gwaith. Mae'r polisi hwn yn caniatáu i staff weithio o bell, sy'n lleihau ôl troed carbon cyffredinol y sefydliad. Mae fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd wedi mabwysiadu dull gweithio hybrid.

- **Defnyddio ynni** – fel un o nifer o denantiaid mewn bloc bach o swyddfeydd, nid yw'n bosibl cael rheolaeth lwyr dros y dŵr a'r gwres. Fodd bynnag, yn fy swyddfa i, mae falfiau rheoli thermostatig ar bob gwresogydd, bylbiau golau LED rhad ar ynni, a goleuadau sensitif i symudiad mewn rhai mannau o'r swyddfa.



Ers 2017, mae defnydd o drydan yn y swyddfa wedi gostwng 61%, er ei fod wedi aros tua'r un fath yn ystod 2020 a 2021, gan nad yw arferion gweithio wedi newid dros y ddwy flynedd hyn. Er nad wyf yn rhagweld y bydd defnydd o ynni yn y dyfodol yn cynyddu'n sylweddol, efallai y bydd cynnydd bach yn y defnydd yn 2022 wrth i staff ddewis dychwelyd i'r swyddfa.

Rwy'n parhau i ymrwymo i ddefnyddio tariffau ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn unig, ac yn 2020, llwyddais i sicrhau tariff ynni cwbl wyrdd i gyflenwi trydan y swyddfa.

- **Allyriadau carbon** – i gydnabod yr effaith negyddol y mae allyriadau carbon yn parhau i'w chael ar y blaned, eleni fe wnes i gyfateb fy rhodd ar gyfer 2019-2020 (cyn y pandemig) i wrthbwyso allyriadau carbon. Defnyddir yr arian i gefnogi prosiectau ledled y byd sy'n lleihau allyriadau carbon drwy fesurau osgoi a chynhyrchu ynni glân/ adnewyddadwy.

- **Gwaredu Gwastraff** – mae gweithdrefnau ar waith i ailgylchu deunyddiau, gan gynnwys papur, cardbord a rhai mathau o blastig. Mae trefniadau hefyd ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd. Mae'r biniau wedi cael eu symud oddi wrth y desgiau er mwyn annog staff i ailgylchu cymaint â phosibl, ac mae mannau ailgylchu o gwmpas y swyddfa hefyd.

- Oherwydd y ddyletswydd i sicrhau cyfrinachedd yn ein deddfwriaeth alluogi, defnyddir cyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol i gael gwared ar bapurau sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif. Mae'r Tîm Gwyrdd yn hyrwyddo pwyntiau 'Terracycle' er mwyn galluogi staff i waredu gwastraff nad yw'n cael ei gasglu gan eu hawdurdod lleol mewn ffordd gyfrifol.

- **Rheoli papur** – mae gweithio di-bapur yn cael ei annog, ac yn unol ag arferion gorau, dosberthir e-bapurau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan y Comisiynydd.

- **Cynnyrch** – anogir cyflenwyr i ddefnyddio nwyddau ecogyfeillgar lle bynnag y bo modd. Mae'r contractwr glanhau'n defnyddio cynnyrch glanhau amgylcheddol gyfeillgar. Yn ogystal â hyn, mae'r caledwedd TG a ddarperir i staff yn gymwys ar gyfer Energy Star. Mae'r Comisiynydd yn defnyddio nwyddau papur amgylcheddol-gadarn fel papur ac amlenni wedi eu hailgylchu.

- **Addysg** – rwyf wedi ymroi i gynnal sesiynau hyfforddiant addysgol i staff am faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sut y gall gweithwyr gyfrannu yn ystod oriau gwaith a drwy eu bywydau y tu allan i'r gweithle.

Drwy ymgysylltu â staff, cafodd fy Mholisi Cynaliadwyedd ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2022. Mae'r Cynllun Gweithredu ar Gynaliadwyedd sydd wedi'i gynnwys yn y Polisi yn nodi manylion y camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd dros y ddwy flynedd nesaf i ddatblygu arferion gwaith cynaliadwy ymhellach.

Bydd y ddwy flynedd hyn yn rhoi llinell sylfaen i ni ar gyfer gweithgarwch a thystiolaeth, fel y bydd modd i ni gyflwyno cynllun gweithredu cyfredol gyda thargedau clir i leihau ôl troed carbon y sefydliad erbyn 2030.

Dolen i'r wefan: Dyletswydd Bioamrywiaeth a Strategaeth Cynaliadwyedd

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
26 July 2022

Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad.

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Fy adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys manylion ynghylch sut rwy'n dangos cydymffurfiaeth a gwaith llywodraethu corfforaethol cadarn.
- Mae fy Adroddiad ar Staff a Thaliadau yn rhoi gwybodaeth am daliadau uwch reolwyr, fy natgeliad cyflog teg a gwybodaeth am faterion eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth.
- Mae Adroddiad yr Archwiliad yn cynnwys barn derfynol ein harchwilydd am y datganiadau ariannol.

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu, gan gynnwys fy Nhîm Rheoli Busnes a'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, i'w gweld yn fy Natganiad Llywodraethu ar dudalennau 39 i 45. Mae'r wybodaeth hon ar fy ngwefan hefyd.

Dolen i'r wefan: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Adrodd Corfforaethol

Codi pryderon

Ym mis Tachwedd 2016, daeth rôl y Comisiynydd yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y Ddeddf) ar gyfer materion yn ymwneud â hawliau a lles pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn gweithwyr sy'n chwythu'r chwiban, ar yr amod bod y gweithiwr sy'n cyflwyno'r datgeliad yn credu'n rhesymol ei fod yn berthnasol i gylch gwaith y Comisiynydd a bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu ac unrhyw honiadau a geir ynddi yn wir gan fwyaf.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'm swyddfa ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law, gan mai dim ond datgeliadau sy'n dod o fewn cwmpas fy swyddogaethau statudol ac o fewn paramedrau fy mhwerau statudol y mae modd i mi ymchwilio iddynt.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu cyfeirio ataf o ganlyniad i fy rôl fel 'person rhagnodedig' yn ystod 2021-22 (2020-21: dim).

Yr Iaith Gymraeg

Ers 25 Ionawr 2017, rwyf wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i mi ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a hwyluso a hybu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle.

Yn ystod 2021-22, rwyf wedi cydymffurfio â'r holl Safonau ac wedi parhau i ddangos fy ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Rwyf wedi parhau i gymryd pob cam posibl i hyrwyddo'r Gymraeg drwy sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hanes y Gymraeg, cyflogi nifer o staff dwyieithog, darparu gwasanaeth cyngor a chymorth dwyieithog i bobl hŷn, galluogi staff i fynd i wersi Cymraeg yn ystod amser gwaith, a chynnig amgylchedd gweithio dwyieithog.

Dolen i'r wefan: Safonau'r Gymraeg

Cynllun cydraddoldeb strategol

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni pam mae diogelu hawliau pobl hŷn yn hanfodol, a pha mor hawdd yw gweld dirywiad yn hyn o beth. Mae'r pandemig yn sicr wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu bob dydd, yn enwedig pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Mae hefyd wedi dangos bod gwahaniaethu ar sail oedran yn dal yn gyffredin yn ein cymdeithas heddiw, er ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd ei oed.

Ddylai hawliau ddim diflannu wrth i bobl heneiddio. Fodd bynnag, mae llawer o bobl hŷn yn sylwi nad yw eu hawliau'n cael eu parchu wrth iddynt fynd yn hŷn.

Mae sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cefnogi ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn yn ganolog i'm rôl i fel Comisiynydd. Fel hyrwyddwr a llais annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, rwy'n gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywydau pobl hŷn. Mae gennyf rôl unigryw i'w chwarae i fynd i'r afael â phob math o wahaniaethu ar sail oedran, ac i sicrhau bod eraill yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn ochr yn ochr â mi.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awdurdod rhestredig o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r swyddfa ddilyn yr hyn a elwir yn 'ddyletswyddau cyffredinol' i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae fy staff a minnau wedi ymrwymo i'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yn ei chefnogi'n llwyr. Ein nod yw ymgorffori'r Ddeddf ym mhopeth y mae'r Comisiynydd yn ei wneud. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i mi hefyd ddarparu Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cynnwys Amcanion Cydraddoldeb y bydd yn rhaid i mi eu cyflawni mewn cylchoedd o bedair blynedd.

Dolen i'r wefan: Cynllun Cydraddoldeb

Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau.

Polisi Taliadau

Rwy'n gwneud fy ngorau i gydymffurfio â Chod Talu'n Well Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Y targed yw gwneud taliadau yn unol â thelerau talu penodol, neu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfonebau nad oes anghytuno yn eu cylch ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad talu'r flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 99.06% o daliadau prydlon (98.23% yn 2020-21). Ni thalwyd llog oherwydd taliadau hwyr.

Gwybodaeth

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn, ac yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys data personol a ddelir sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran unigolion hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Yn 2021-22, bu un digwyddiad diogelwch data (2020-21: un), nad oedd angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano.

Yn ystod 2021-22, derbyniais dri chais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (2020-21: 5). Ymatebwyd i bob cais o fewn yr amserlenni penodol.

Ni chefais unrhyw Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun (2020-21: 0).

Cofrestri

Byddaf yn cyhoeddi manylion am fy nhreuliau fy hun – y rhai uniongyrchol a'r rhai a geir ar fy rhan – ar fy ngwefan bob chwarter. Oherwydd y pandemig, nid wyf wedi teithio i gwrdd â rhanddeiliaid yn ystod 2020-21 a 2021-22 ac nid wyf wedi hawlio unrhyw dreuliau o gwbl. Gellir gweld y treuliau rwyf wedi eu hawlio yn y gorffennol ar y wefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn edrych yn ofalus ar fy nhreuliau ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: Treuliau'r Comisiynydd

Rwy'n cadw cofrestr o'r holl roddion a'r lletygarwch sydd wedi'u derbyn a'u gwrthod, yn rhinwedd fy nyletswyddau swyddogol. Caiff y gofrestr hon ei diweddaru bob chwarter a'i

chyhoeddi ar fy ngwefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn edrych yn ofalus ar y treuliau hyn ym mhob cyfarfod..

Dolen i'r wefan: Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Gwrthdaro rhwng buddiannau

Fel rhan o'u telerau penodi, mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fabwysiadu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan. Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â'm diwylliant a'm gwerthoedd corfforaethol, yn rhoi sail i'm Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i weithwyr cyflogedig ac aelodau'r Pwyllgor ddilyn y Cod hwn a'i gadw'n gyfredol.

Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi bod holl weithwyr cyflogedig ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cymryd camau i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau, drwy gofrestru a datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau personol a gwaith y Comisiynydd wrth iddynt godi.

Mae cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Cyfarwyddwyr ac aelodau Pwyllgor ar gael ar fy ngwefan.

Dolen i'r wefan: Cofrestr Buddiannau

Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod 2021-22, nid oeddwn i nac unrhyw aelod arall o'm Tîm Rheoli Busnes na'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, nac unrhyw aelod o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r taliadau cyflog a'r hawliadau arferol am dreuliau.

Trefniadau archwilio

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 12, Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Cost archwilio cyfrifon 2021-22 yw £14,000 (£14,000: 2020-21). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2021-22 (£dim: 2020-21).

Yn ystod 2020-21, ymgymerais â thendr ar y cyd ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Dyfarnwyd contract tair blynedd i TIAA Ltd, a oedd yn dechrau ym mis Ebrill 2021, ac opsiwn i ymestyn y contract hwnnw am ddwy flynedd arall.

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn ac adeg cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n ymwybodol nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
26 Gorffennaf 2022

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Paratoir y cyfrifon er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, y llifoedd arian a'r newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny. Mae'r adroddiad blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir hwy yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw; a
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu bod y rhain yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a dros asedau'r Comisiynydd, fel y'u nodir yn y memorandwm 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth hon. Cyn belled ag y gwn, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Datganiad Llywodraethu

Cyfrifoldebau

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi sail dyletswyddau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sut caiff fy ffordd o gyflawni fy nyletswyddau ei llywodraethu a'i rheoli, a sut rwyf i, fel Comisiynydd, yn atebol am yr hyn a wnaf.

Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol o dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dyma ddyletswyddau statudol y rôl:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru;
- hyrwyddo darpariaeth cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn;
- annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru;
- cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rwyf fi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fel Corfforaeth Unigol a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad ond gallaf ddirprwyo'r gwaith o arfer fy swyddogaethau i unrhyw aelod o staff. Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel y gallai fod gan gyrff cyhoeddus eraill, mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (Pwyllgor) i'm cynorthwyo sydd yn rhoi sicrwydd ynghylch sut caiff y sefydliad ei Lywodraethu, gan gynnwys priodoldeb a chysondeb wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf 2006, yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gallu craffu ar y cyfrifon a pha mor effeithlon ac effeithiol ydwyf o ran defnyddio'r adnoddau a ddarperir imi ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau statudol.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn swydd am bedair blynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, gall Llywodraeth Cymru, ar ôl ymgynghori â phobl hŷn, gynnig estyniad o ddwy flynedd, neu gall deiliad y swydd ailymgeisio drwy broses recriwtio agored am dymor ychwanegol o bedair blynedd. Rwyf wedi cytuno â Llywodraeth Cymru y bydd fy nghyfnod yn y swydd yn cael ei ymestyn am ddwy flynedd ychwanegol tan fis Awst 2024.

Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae llywodraethu corfforaethol da yn hanfodol mewn unrhyw sefydliad sy'n cael ei reoli'n dda. Mae'r fframwaith llywodraethu rwy'n ei ddilyn yn seiliedig ar systemau, polisïau a phrosesau allweddol y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt.

Mae systemau rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i:

- sicrhau cywirdeb a rheoleidd-dra ariannol;
- sicrhau fy mod yn cydymffurfio â'm dyletswyddau statudol; a
- sicrhau fy mod yn rhagweithiol o ran nodi a gwerthuso risg a fy mod yn rheoli

risg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r rheolaethau hyn wedi eu cynllunio i gynnal y risgiau sy'n wynebu'r Comisiynydd yn y lefelau goddefgarwch risg a nodwyd yn y strategaeth Rheoli Risg. Mae'r rheolaethau hefyd wedi cael eu dylunio i adlewyrchu fy archwaeth am risg.

Mae'r systemau rheolaeth fewnol hyn yn gweithio mewn modd integredig, gan adlewyrchu pwysigrwydd dull gweithredu integredig o lywodraethu a rheoli. Dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall y rhain ei ddarparu.

Fframwaith Llywodraethu

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n rhaid i mi enwebu Dirprwy a all gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd os yw'r swydd yn wag, neu os na fyddaf i yn gallu gweithredu unrhyw dro am unrhyw reswm. Kelly Davies, y Prif Swyddog Gweithredu, yw fy Nirprwy enwebedig.

Roedd fy fframwaith llywodraethu yn 2021-22 yn cynnwys tair prif elfen o sicrwydd, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Rhaglen archwilio fewnol
- Tîm Rheoli Busnes

Mae'r tair ffynhonnell hyn o sicrwydd yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion sy'n berthnasol i Gorfforaeth Undyn o fewn Cod Llywodraethau Corfforaethol y Deyrnas Unedig a'r Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, hynny yw, yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus.

Fel rhan o'u telerau penodi, mae gofyn i holl gyflogeion ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fabwysiadu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan. Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â fy niwylliant a'm gwerthoedd corfforaethol, yn rhoi sail i'm Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i gyflogeion ac aelodau'r Pwyllgor ddilyn y Cod hwn a'i gadw'n gyfredol.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg annibynnol i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu, i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys archwilio a rheolaeth ariannol, a threfniadau ar gyfer rheolaeth fewnol, gan gynnwys systemau canfod a rheoli risg. Gyda sicrwydd ychwanegol gan archwilwyr mewnol (TIAA) ac archwilwyr allanol (Archwilio Cymru).

Mae fy Nhîm Rheoli Busnes a minnau'n rhoi gwybodaeth berthnasol, amserol a chywir i'r Pwyllgor.

Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl ffurfiol, sy'n seiliedig ar ganllawiau arferion gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i sicrhau bod fy nhrefniadau llywodraethu yn fwy tryloyw.

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, anfonir papurau gofynnol i aelodau, sy'n nodi eitemau ar yr agenda chwe diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

Eleni, mae'r Pwyllgor wedi craffu ac wedi rhoi sicrwydd i mi ar amrywiaeth o eitemau gan gynnwys y canlynol:

- Y Gofrestr Risg Strategol
- Adroddiadau Llywodraethu Chwarterol
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- Diweddariad ar gynnydd Cynllun Busnes blynyddol y Comisiynydd.
- Amcangyfrif y Comisiynydd ar gyfer

2022/23, gan gynnwys cynllun ariannol tymor canolig y Comisiynydd

- Polisïau allweddol y Comisiynydd, gan gynnwys y Strategaeth Risg, Gwrth-dwyll a Gwyngalchu Arian a'r Polisi Chwythu'r Chwiban
- Cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol a mewnol

Yn y flwyddyn i ddod, bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar yr eitemau uchod ond bydd hefyd yn craffu ar yr achos busnes dros symud swyddfa o bosibl.

Aelodaeth

Rwy'n penodi aelodau'r Pwyllgor am dymor cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am hyd at bedair blynedd. Yn 2021-22, roedd y Pwyllgor yn cynnwys pum aelod oedd â phrofiad sylweddol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae aelodau'r pwyllgor i gyd yn annibynnol ac felly nid ydynt yn darparu gwaith i mi mewn unrhyw swyddogaeth weithredol.

Yn ystod y flwyddyn roedd ei aelodaeth fel a ganlyn:

- **Steve Harford (Cadeirydd) –** cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Gyrfa Cymru. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2016; cafodd ei benodi'n Gadeirydd ar 1 Ebrill 2017.
- **Phil Davy –** cyn Bennaeth Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerffili. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2017
- **Julia Evans –** cyn Ddirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol) Cyngor y Gweithlu Addysg. Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 2 Ionawr 2019.
- **Claire Bevan –** cyn Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ac Ansawdd yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2020.
- **David Powell –** cyn Ddirprwy Brif Weithredwr Cyngor Sir Powys. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2020.

Ym mis Mawrth 2020, cafodd cyfnod Steve Harford yn ei swydd ei ymestyn am flwyddyn, er mwyn ei alluogi i wasanaethu am dymor llawn fel Cadeirydd. Bwriad yr estyniad hwn oedd rhoi dilyniant i'r Pwyllgor wrth i ddau Aelod newydd, Claire Bevan a David Powell, ymuno ym mis Ebrill 2020. Ar ben hynny, i gydnabod lefel uwch y risg strategol oherwydd pandemig Covid-19 ac i roi sefydlogrwydd a dilyniant i'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod digynsail hwn, roedd telerau Steve Harford a Phil Davy wedi cael eu hymestyn flwyddyn arall tan fis Mawrth 2022.

Yn ystod 2021-22, fe wnes i recriwtio aelod newydd, sef Chris Knight, a fydd yn dechrau yn y swydd ym mis Ebrill 2022 ac yn darparu rhagor o wybodaeth ehangach i'r Pwyllgor.

Mae gofyn i mi adolygu a chylchdroi amrywiaeth, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cronnus aelodau fy Mhwyllgor yn rheolaidd, yn unol ag arferion da. Y Cadeirydd yw'r Aelod o'r Pwyllgor sydd wedi gwasanaethu hiraf a, hyd at fis Mawrth 2022, mae wedi gwasanaethu am gyfnod o chwe blynedd. Bydd Claire Bevan yn dechrau yn ei swydd fel y Cadeirydd newydd o fis Ebrill 2022 ymlaen.

Ymrwymiad y pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ffurfiol bob chwarter ac mae presenoldeb yn ystod 2021-22 wedi bod dros y we, ac mae papurau wedi cael eu dosbarthu'n electronig. Rwy'n rhagweld y bydd y Pwyllgor yn mabwysiadu dull hybrid ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Crynhoir presenoldeb yn y cyfarfodydd isod:

	Mai 2021	Gorf 2021	Hyd 2021	Chwe 2022
Steve Harford (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓
Claire Bevan	✓	✓	✓	✓
Phil Davy	✓	✓	✓	✓
Julia Evans	✓	✓	X	✓
Dave Powell	✓	✓	✓	✓

Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod yn anffurfiol bob chwarter. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i mi ddefnyddio mwy ar arbenigedd amrywiol y Pwyllgorau yn ystod trafodaethau manwl ar feysydd gweithredol a strategol penodol a oedd yn cynnwys lefel uchel o risg. Roedd y cyfarfodydd hefyd wedi rhoi'r cyd-destun a'r wybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor i fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Mae aelodau'r Pwyllgor yn cael eu diweddaru mewn amser real, drwy e-bost, am unrhyw faterion sy'n codi.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor hefyd gyfle i fynychu nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhithiol a oedd yn canolbwyntio ar Ymwybyddiaeth Seiber Gweithredol, Chwythu'r Chwiban a Phwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Dyfodol.

Adolygiad y Pwyllgor o effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor wedi nodi yn ei Adroddiad Blynyddol, o ganlyniad i'r cyfarfod y mae'r Pwyllgor yn ei gael â'r archwilwyr mewnol ac allanol a lefel sicrwydd yr adroddiadau a gafwyd gan yr archwilwyr, y gall roi sicrwydd i mi nad oes gan y naill dîm archwilio na'r llall unrhyw bryder ynghylch ansawdd yr wybodaeth a ddarperir.

O ganlyniad i'w waith yn 2021-22, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel gyffredinol y sylw y mae materion yn ei gael yn yr archwiliad mewnol ac allanol.

Mae'r Pwyllgor yn arfarnu ei effeithiolrwydd a'i weithrediadau ei hun bob blwyddyn a chwblhawyd adolygiadau blynyddol gan y Cadeirydd gydag aelodau eraill y Pwyllgor. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, bu'r Cadeirydd a minnau yn trafod ei berfformiad ef a pherfformiad y Pwyllgor. Yn sgil y trafodaethau hyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan nodi bod y Cadeirydd a minnau'n gallu cadarnhau ymrwymiad yr aelodau ac yn gallu rhoi sicrwydd fod y Pwyllgor yn effeithiol.

Yn ogystal â'r arfarniadau rhwng y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor, mae fy archwilwyr mewnol (TIAA) yn cynnal adolygiad annibynnol bob dwy flynedd o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys trafodaethau ag aelodau'r Pwyllgor.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod mis Mawrth 2022 a dywedodd aelodau'r Pwyllgor:

- Bod papurau'r Pwyllgor yn cael eu dosbarthu mewn da bryd a'u bod o ansawdd da. Roeddent hefyd yn croesawu rhannu polisïau er mwyn cael sylwadau arnynt cyn y cyfarfodydd.
- Mae'r cyfarfodydd yn gytbwys ac yn canolbwyntio ar y meysydd Risg a Llywodraethu. Roeddent yn cadarnhau bod digon o amser yn cael ei roi i gwestiynau a thrafodaeth a bod y Tîm Rheoli Busnes bob amser yn darparu atebion.
- Roeddent yn croesawu'r cyfleoedd i gyfarfod yn anffurfiol drwy gydol y flwyddyn i drafod risgiau strategol penodol a'r broses rheoli risg yn fwy manwl.
- Maent yn teimlo bod y cyfarfodydd o bell wedi gweithio'n dda ond maent hefyd yn croesawu'r cyfle i gwrdd wyneb yn

wyneb a byddent yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â rhai o'm tîm ehangach.

Yn ogystal ag adolygu ei berfformiad ei hun bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cyhoeddi datganiad ffurfiol bob blwyddyn sy'n nodi i ba raddau y mae'n fodlon â lefel fy rheolaeth ariannol yn gyffredinol, yn ogystal â phrosesau llywodraethu corfforaethol, adnabod risgiau a rheoli yn ehangach.

Ar gyfer 2021-22, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu lefel sylweddol o sicrwydd i mi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn parhau i fod yn briodol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Felly, yn fy marn i, mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at y systemau rheolaeth fewnol a fy mlaenoriaethau strategol ehangach.

Archwilio Mewnol

Rôl archwiliad mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ran rheoli risg, rheolaethau a llywodraethu. Mae'r sicrwydd mae'r archwiliad mewnol yn ei roi yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac yn un o'r ffynonellau sicrwydd allweddol sy'n ofynnol gennyf i a fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae'r Proffil Risg Strategol yn sail i ffocws gwaith yr archwiliad mewnol ac yn darparu'r dystiolaeth mae'r datganiad sicrwydd blynyddol ar reolaeth fewnol yn seiliedig arni.

Mae TIAA wedi dechrau ar gontract tair blynedd, gyda'r opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd arall, i ddarparu gwasanaethau Archwilio Mewnol i mi o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Yn ystod 2021-22, roeddent wedi adolygu'r canlynol:

- Systemau ariannol, gan gynnwys Rheoli Arian Parod a Bancio, y Gyflogres a'r Cyfriflyfr Cyffredinol.
- Llywodraethu – Rheolaeth Strategol
- Trefniadau Rheoli Risg

Rhoddodd fy archwilwyr mewnol sicrwydd sylweddol ynglŷn â'r holl feysydd a adolygwyd, gydag un argymhelliad bach. Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rwyf wedi adolygu a chryfhau fy system rheolaethau mewnol a byddaf yn parhau i sicrhau fy mod yn monitro systemau mewnol yn gyson ac yn ceisio eu gwella'n barhaus.

Daeth adroddiad blynyddol TIAA i'r casgliad bod "TIAA yn fodlon bod gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru brosesau rheoli, llywodraethu a rheoli risg rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn."

Tîm Rheoli Busnes

Rwy'n gweithio gyda fy Nhîm Rheoli Busnes, sy'n cwrdd yn ffurfiol bob mis. Yn ystod 2021-22, roedd y Tîm Rheoli Busnes yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gomisiynydd, Kelly Davies, y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, Katie Holliday, a minnau.

Fel grŵp, mae'r Tîm Rheoli Busnes yn cyfrannu at y canlynol:

- asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd;
- datblygu fy nodau strategol a'm Cynllun Busnes blynyddol;
- dyrannu adnoddau ariannol, adnoddau dynol ac adnoddau eraill mewn ffordd effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny; ac
- asesiad cyffredinol o berfformiad parhaus y sefydliad.

Fel Comisiynydd, rwy'n atebol am unrhyw benderfyniad a wneir.

Mae'r Tîm Rheoli Busnes yn adolygu ei

arferion gwaith a'i effeithiolrwydd parhaus yn gyson. Ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Tîm Rheoli Busnes, maent yn pwyso a mesur yr agenda, ansawdd y papurau ac ansawdd y drafodaeth a chymerir camau i'w gwella.

Rheoli Risg

Mae'r fframwaith risg a rheoli yn cael ei ategu gan y Strategaeth Rheoli Risg ac yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol. Mae'r fframwaith risg hwn yn cydymffurfio â'r prif egwyddorion sydd wedi'u nodi yn nogfen Llywodraeth EM, Rheoli Egwyddorion a Chysyniadau Risg (Llyfr Oren), gan ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau bod y sefydliad wedi gwyro oddi wrth y Llyfr Oren. Mae fy Strategaeth Rheoli Risg yn cydnabod nad yw'n bosibl dileu pob risg, ond, drwy'r Gofrestr Risgiau Strategol, caiff risgiau eu hadnabod a'u rheoli ac yna eu gostwng i lefel dderbyniol. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi er fy mod yn atebol am bob risg, mae gan yr holl staff rôl i adnabod risgiau posibl newydd a defnyddio'r camau lliniaru priodol i leihau neu i ddileu risg. Caiff y Strategaeth ei hadolygu bob blwyddyn ac fe'i hadolygwyd diwethaf ym mis Gorffennaf 2021.

Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu nad wyf yn amharod i gymryd risgiau a reolir i gyflawni'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Strategol. Byddaf nid yn unig yn ystyried y risg y bydd pethau'n mynd o chwith, ond hefyd yr effaith o beidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio â manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r fath. I'r gwrthwyneb, ni fyddaf yn goddef lefel uchel o risg a fyddai'n arwain at fethu â chydymffurfio â gofynion llywodraethu, dyletswyddau statudol a gofynion cyfreithiol.

Caiff y Gofrestr Risg Strategol ei hystyried wrth bennu blaenoriaethau'r sefydliad, gan gynnwys llunio Amcangyfrif blynyddol a Chynllun Busnes. Mae'r blaenoriaethau a bennir yn mynd i'r afael â sut byddant yn fy helpu i a'm Tîm Rheoli Busnes i reoli risgiau sylweddol.

Mae fy Nghofrestr Risg Strategol yn parhau i adlewyrchu'r risgiau a'r heriau cyfredol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

Mae achos, effaith, rheolaethau a chamau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â risgiau yn y gofrestr risgiau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n ffurfiol bob mis gan y Tîm Rheoli Busnes, i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i addasu i'r amgylchedd sy'n newid a bod yr holl risgiau byw yn cael eu rheoli a'r risgiau posibl yn y dyfodol yn cael eu nodi, a bod camau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r risgiau hyn hefyd yn cael eu hadolygu'n ffurfiol yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg chwarterol.

Byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod mewn amser real am unrhyw risg sy'n cael ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Strategol, er nad yw hyn wedi digwydd yn ystod 2021-22.

Er nad yw'r Gofrestr Risgiau Strategol yn nodi Covid-19 yn benodol fel risg, mae effeithiau'r pandemig yn sail i'r holl risgiau strategol ac wedi'u hadlewyrchu yn y rheolaethau lliniaru a'r camau gweithredu arfaethedig.

Er mis Mawrth 2020, mae effaith gronnus y risgiau sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19 yn golygu bod risg weddilliol strategol y sefydliad yn sylweddol uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gydol rhan olaf 2021-22, mae lefel y risg weddilliol wedi gostwng ac mae nawr yn adlewyrchu lefelau cyn y pandemig.

Er bod y risg weddilliol gyffredinol wedi lleihau, mae'n werth nodi bod dwy risg strategol yn parhau'n uchel:

- Disgrifiad Risg 10: 'Nid yw lleisiau pobl hŷn, yn eu holl amrywiaeth, yn cael eu clywed ac ni weithredir arnynt''- Mae'r risg hon yn parhau i gael ei sgorio'n uchel wrth i'r pandemig barhau i effeithio ar fy ngallu i ymgysylltu wyneb yn

wyneb â phobl hŷn.

- Disgrifiad Risg 4: 'Nid yw'r Comisiynydd yn cael hysbysiad o gyllideb 2023/24 tan fis Rhagfyr 2023 ac nid yw'n cael y gyllideb y gwnaed cais amdani ar gyfer 2023/24 gan Lywodraeth Cymru' - Mae hon yn risg newydd sy'n adlewyrchu'r ffaith nad yw'n gynaliadwy i fy swyddfa barhau i dderbyn cyllideb wastad gan Lywodraeth Cymru ac mae'r risg yn cynnwys pwysigrwydd rhoi gwybod am fy nghyllideb flynyddol ar gyfer 2023/24 yn amserol.'

Codi Pryderon

Mae fy mholisi Codi Pryderon yn nodi sut gall staff chwythu'r chwiban os ydynt yn amau bod drwgweithredu neu beryglon yn y gweithle.

Os bydd fy staff neu eraill yn mynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol sy'n cynnwys Polisi Codi Pryderon a Pholisi Cwynion. Caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud â fy rôl eu cyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Yn ystod 2021-22, ni ddaethpwyd â dim pryderon i'm sylw i nac i sylw Cadeirydd y Pwyllgor o dan fy mholisi Codi Pryderon mewnol (2020-21: dim).

Yn ystod 2021-22, ni wnaed dim cwynion allanol ffurfiol o dan y Polisi Cwynion (2020-21: 2).

Adolygu Effeithiolrwydd

Drwy gydol 2021-22, rwyf wedi diwygio, mireinio a monitro fy risgiau strategol a gweithredol yn unol â fy strategaeth rheoli risg ac yn ystod 2022-23 byddaf yn parhau i fonitro, cynnal a, pan fo'n briodol, gwella'r fframwaith llywodraethu i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu fy anghenion o ran sicrwydd.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf ddyletswydd gyfreithiol i reoli adnoddau cyhoeddus yn briodol ac, o ganlyniad, rwyf yn adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu yn barhaus. Mae gwaith archwilio mewnol, fy Nhîm Rheoli Busnes a sicrwydd a roddwyd gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn ogystal â sylwadau archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) yn sail i'r adolygiad hwn, ac maent wedi'u cynnwys yn y llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Barn y Comisiynydd ar y Datganiad Llywodraethu

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn y datganiad llywodraethu hwn ac, yn fy marn i, mae'r gweithdrefnau a'r strwythurau rheoli mewnol a llywodraethu cyffredinol wedi bod yn briodol o ran cefnogi fy swyddogaethau a'm blaenoriaethau ac wedi gweithio'n effeithiol hyd at ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon.

Mae'r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, a pharatowyd y datganiad yn unol â chanllawiau'r Trysorlys.

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
26 Gorffennaf 2022

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy'n pennu fy nghyflog i, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Rwy'n gymwys i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac wedi ymuno â'r Cynllun Pensiwn hwnnw.

Fi sy'n pennu cyflogau staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol.

Bydd unrhyw rôl newydd sy'n cael ei chynnwys yn fy strwythur sefydliadol yn cael ei gwerthuso gan ddefnyddio meincnod a sefydlwyd gan sefydliad Adnoddau Dynol allanol, i sicrhau ei bod yn cael ei graddio'n briodol.

Dyfarnwyd codiad cynyddrannol i gyflogau staff yn unol â thelerau ac amodau contractau.

Wrth benderfynu a ddylid rhoi dyfarniad cyflog i staff, byddaf yn ystyried fforddiadwyedd o fewn fy nghyllideb fy hun, chwyddiant a'r dyfarniadau cyflog a gynigir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, dyfarnwyd cynnydd costau byw chwyddiannol o 2% yn 2021-22 (dyfarnwyd 2% yn 2020-21).

Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff ar eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol â thelerau ac amodau a bennir gennyf i. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Pedair blynedd yw cyfnod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Ar ôl ymgynghori â phobl hŷn, gall Llywodraeth Cymru gynnig estyniad o ddwy flynedd i gyfnod swydd y Comisiynydd, neu gall y Comisiynydd wneud cais arall drwy broses recriwtio agored am gyfnod ychwanegol o bedair blynedd. Rwyf wedi cytuno â Llywodraeth Cymru y bydd fy nghyfnod yn y swydd yn cael ei ymestyn am ddwy flynedd ychwanegol tan fis Awst 2024.

Oni nodir yn wahanol, mae penodiadau'r staff sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn benagored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau'r PCSPS ar oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu ffyrdd o werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fonitro ar bob cam o'u cyflogaeth gyda'r sefydliad. Rwyf wedi rhoi rhaglen datblygu sefydliadol ar waith er mwyn gwella gallu a gwella lefelau perfformiad cyffredinol.

Byddai terfynu swydd yn gynnar, ac eithrio oherwydd camymddwyn neu ymddiswyddiad, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau Pensiwn (yn amodol ar archwiliad)

(yn amodol ar archwiliad)

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion taliadau a buddiannau pensiwn fy staff uwch a minnau.

Cyfanswm Unigol y Taliad

(yn amodol ar archwiliad)

Mae'r 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfans arall i'r graddau bod trethiant y Deyrnas Unedig yn berthnasol iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronnwyd ac a wnaed gan y Comisiynydd, ac sydd wedi'u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol nac unrhyw fonws.

Enw a theitl	Cyflog		Buddion Pensiwn[1]		Cyfanswm	
	2021-22 £000	2020-21 £000	2021-22 £000	2020-21 £000	2021-22 £000	2020-21 £000
Heléna Herklots Comisiynydd	90-95	90-95	35	35	125-130	125-130
Kelly Davies Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd	65-70	65-70	26	26	90-95	90-95
Katie Holliday Katie Holliday Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	50-55	45-50	28	26	75-80	70-75

(1) Mae gwerth y buddion pensiwn sydd wedi'u cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) yn ogystal â'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai'r (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Buddion Pensiwn

(yn amodol ar archwiliad)

	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn – ar 31/3/22	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn	CETV ar 31/03/22	CETV ar 31/03/21	Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV
	£000	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Heléna Herklots Comisiynydd	5-10	0-2.5	107	76	23
Kelly Davies Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd	10-15	0-2.5	152	133	11
Katie Holliday Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	10-15	0-2.5	166	144	13

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i gymar. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes, a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod..

Cynllun Pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "alpha", yn gynlluniau buddion diffiniedig heb eu cyllido ar gyfer sawl cyflogwr, ond nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu canfod beth yw ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau.

Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yma.

Ar gyfer 2021-22, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £198,300 yn daladwy i'r PCSPS (2020-21: £194,000) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2021-22 sydd i'w talu i'r aelod pan mae'n ymddeol, ac nid y buddion a gaiff eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn codi pensiwn.

Gall gweithiwr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniad cyflogwr gwerth £14,500 i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan y cyflogwr o £400, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y

dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd salwch yng nghyswllt y gweithwyr hyn.

Roedd cyfraniadau a oedd yn daladwy i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £dim (£dim: 2020-21). Roedd y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw yn £dim.

Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys o dan y pennawd Costau Pensiwn Eraill yn y tabl ar dudalen 70.

Adroddiad Staff

(yn amodol ar archwiliad)

Ar 31 Mawrth 2022, roedd y staff cyfwerth ag amser llawn yn 19.26 (31 Mawrth 2021: 18.64)

Mae costau staff yn cynnwys:

	2021-22			2020-21
	£000	£000	£000	£000
	Staff Parhaol	Staff Wrth Gefn	Cyfanswm Costau Staff	Cyfanswm Costau Staff
Cyflogau	730	87	817	809
Costau Nawdd Cymdeithasol	76	9	85	83
Costau Pensiwn Eraill	195	18	213	208
Cyfanswm costau net	**1,001**	**114**	**1,115**	**1,100**

Taliadau Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

O fis Ebrill 2020 ymlaen, yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, gwahoddais aelodau'r Pwyllgor i ddod i sesiynau anffurfiol chwarterol a oedd yn rhoi cyfle i aelodau fy Nhîm Rheoli Busnes a'm Pwyllgor drafod meysydd strategol a oedd yn peri risg uchel ymhellach. Ers hynny, mae'r sesiynau anffurfiol hyn wedi cael eu gwreiddio yng ngweithgareddau fy sefydliad. Felly ym mis Rhagfyr 2021, diwygiais Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a chynyddu nifer y diwrnodau o dâl a delir i aelodau fy mhwyllgor o 6 diwrnod i 8 diwrnod y flwyddyn. Cafodd hyn ei ôl-ddyddio i fis Ebrill 2021 hefyd.

Wedi'u cynnwys o fewn costau staff mae £16,545 (2020-21: £12,300) sy'n ymwneud â'r taliad (heb fod yn bensiynadwy) i bump aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Nifer y Staff

(yn amodol ar archwiliad)

Dyma nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gennyf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch aelodau staff):

	2021-22	2020-21
Staff Parhaol	17.26	16.54
Penodiadau Cyfnod Penodol	2.77	3.75
Cyfanswm	**20.02**	**20.29**

Ar ddiwedd y cyfnod ariannol, dyma nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn oedd yn gyflogedig gennyf (gan gynnwys uwch aelodau staff):

	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021
Staff Parhaol	17.26	15.64
Penodiadau Cyfnod Penodol	2.00	3.00
Cyfanswm	**19.26**	**18.64**

Yn y tablau uchod, mae'r staff cyflogedig yn cael eu nodi mewn niferoedd sydd gyfwerth ag amser llawn.

Datgeliad Cyflog Teg

(yn amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm yn cynnwys cyflog yn unig, ac nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

	2021-22	2020-21
Band cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y mwyaf o gyflog (y Comisiynydd)	£90,000 – £95,000	£90,000 – £95,000
Newid canrannol yn y cyflog cyfartalog o'r flwyddyn flaenorol	-1.21%	-6.27%
Taliad chwartel isaf	£30,287	£27,629
Cymhareb cyflog – 25ain canradd	3.05	3.34
Taliad cyfan canolrifol	£36,622	£35,088*
Cymhareb cyflog canolrifol	2.52	2.63*
Taliad chwartel uchaf	£44,581	£43,707
Cymhareb cyflog – 75ain canradd	2.07	2.11

*Mae ffigurau'r cyfnod blaenorol wedi'u hailddatgan gan eu bod yn cynnwys y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf o fewn y cyfrifiad canolrifol

Roedd tâl band y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £90,000-£95,000 yn 2021-22 (2020-21: £90,000 – £95,000). Ni chafodd y Comisiynydd gynnydd costau byw yn 2021-22 nac yn 2020-21, felly nid yw ei chyflog wedi newid. Mae cyflog y Comisiynydd yn 2.52 gwaith (2020-21: 2.63) tâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £36,622 (2020-21: £35,088). Mae'r gymhareb wedi lleihau ychydig bach oherwydd mae'r taliadau cyffredinol i staff wedi cynyddu ar raddfa gyflymach na thâl y Comisiynydd.

Yn 2021-22, ni chafodd yr un gweithiwr cyflogedig (2020-21: dim) daliadau a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd. Roedd taliadau yn amrywio o £20,000 - £25,000 i £90,000 - £95,000 (2020-21: £20,000 - £25,000 i £90,000 - £95,000).

Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

(ddim yn amodol ar archwiliad)

Mae'r tabl isod yn dangos enillion canolrifol a chymedrig fy staff fesul awr. .

	31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2021	
	Menywod	Dynion	Menywod	Dynion
Cyfanswm canolrifol	£20.67	£21.05	£17.81	£19.63
Cyfanswm cymedrig	£22.87	£19.45	£21.55	£18.34

Dyma gyfansoddiad staff fy swyddfa yn ôl rhyw a band ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon:

	31 Mawrth 2022						
	Band A	**Band B**	**Band C**	**Band D**	**Band E***	**Band F***	**Com***
Menywod	0	3	3	3	1	1	1
Dynion	0	1	1	4	0	0	0

*Mae fy Nhîm Rheoli Busnes i gyd yn fenywod

Ar 31 Mawrth 2022, mae'r cyflog canolrifol ar gyfer y ddau ryw tua'r un fath, ond mae cyflog cymedrig menywod yn uwch gan fod fy Nhîm Rheoli Busnes i gyd yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2021-22 yn -14.94%, a bod menywod yn ennill £114.94 am bob £100 y mae dynion yn ei ennill.

Ystadegau oedran y gweithlu

(ddim yn amodol ar archwiliad)

Niferoedd yn ôl oedran ar 31 Mawrth 2022

16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65 a hŷn	Heb ddatgelu
0	4	8	5	2	1	0

Trosiant staff

(ddim yn amodol ar archwiliad)

	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Nif. Staff	1	2	5	3	1
Trosiant	4.65%	10.04%	24.27%	15.51%	5.02%

Mae maint fy sefydliad, ac felly maint y sampl sydd ar gael, yn ystumio gwerthoedd y trosiant yn y tabl uchod, gan fod un person yn gadael y sefydliad yn cynrychioli trosiant o 5%.

Absenoldeb Oherwydd Salwch

Y gyfradd gyfartalog ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch fesul aelod o staff oedd 8.93 diwrnod (8.19 diwrnod yn 2020-21). Roedd cyfradd 2021-22 yn uwch nag y byddem wedi hoffi iddi fod, a'r rheswm am hyn oedd bod nifer bach o staff ar absenoldeb salwch tymor hir. Wrth gwrs, cafodd COVID effaith hefyd ar absenoldebau staff tymor byr yn rhan olaf y flwyddyn. Pe bai'r absenoldebau tymor hir, sef rhai sy'n hwy na phedair wythnos, yn cael eu tynnu o'r cyfraddau absenoldeb salwch cyfartalog, 4.79 diwrnod fyddai'r gyfradd ar gyfer 2021-22.

Rwyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr.

Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Byddaf yn edrych yn ofalus ar fy arferion recriwtio ar ôl pob penodiad er mwyn deall rhwystrau posibl yn well a sicrhau bod arferion recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch i ystod eang o ymgeiswyr sydd â sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Mae gennyf Gynllun Gwarantu Cyfweliad sy'n rhoi'r hawl i unigolion ag anableddau ac o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol adeg llunio'r rhestr fer.

Hysbysebir swyddi gwag drwy amrywiaeth o rwydweithiau er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, ac mae modd cael gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau ar gais. Mae gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig pob ymgeisydd yn cael ei chasglu a'i monitro i sicrhau cyfle cyfartal. Hefyd, rwy'n parhau i gasglu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb ar broffil fy ngweithlu. Rwy'n parhau i fonitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fy ngweithlu, sydd o blaid menywod ar hyn o bryd.

Byddaf yn cadw golwg ar y mathau o gontractau a phatrymau gweithio yn fy ngweithlu er mwyn deall a delio â rhwystrau posibl, gyda'r nod o gadw ymgeiswyr gyda sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Fel rhan o'm hymrwymiad i sicrhau bod arferion da yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hybu dysgu, datblygu a lles cyffredinol, mae fy swyddfa wedi derbyn achrediad Gwobr Iechyd y Gweithle Bach (Aur). Mae'r Wobr yn gynllun cydnabyddiaeth cenedlaethol i fusnesau sy'n gofalu am iechyd a lles eu gweithwyr, ac mae'n brawf annibynnol o'm hymrwymiad i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol i bob aelod o staff. Er mwyn ennill y Wobr Aur, rhaid i gyflogwyr ddangos tystiolaeth o ymrwymiad y sefydliad i ddiwylliant sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg yr holl staff, gan beidio â goddef ymddygiad amhriodol (e.e. bwlio ac aflonyddu) a dangos tystiolaeth o arferion gweithio hyblyg i gyfrannu at les staff.

Polisïau staff yng nghyswllt gweithwyr anabl

Ar gais, byddem yn darparu gwybodaeth recriwtio mewn fformat gwahanol, fel print bras, Braille neu'n electronig. Mae ceisiadau am swyddi hefyd yn cael eu derbyn mewn fformatau gwahanol. Byddwn yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yng nghyswllt y trefniadau ar gyfer y cyfweliad, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn iaith o ddewis yr unigolyn.

Byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, lle byddai modd, i atal pobl anabl rhag bod dan anfantais. Mae hyn yn berthnasol i gyfweliadau a threfniadau ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n ymuno â'r sefydliad, ac ar gyfer aelodau presennol o staff sy'n dychwelyd i weithio ar ôl anaf neu salwch hefyd.

Ymgysylltu â Gweithwyr

Rwy'n ymgysylltu â'r holl staff, sy'n cael y cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd a'u hamgylchedd gwaith ac i gyfrannu atynt. Rhoddir polisïau newydd gerbron y staff er mwyn cael adborth arnynt ar ôl iddynt gael eu llunio.

Ymgynghorais â staff ar ddatblygu Polisi Gweithio Hybrid i gydnabod yr effaith y byddai'n ei chael arnynt. Ym mis Mehefin 2021, dechreuais ymgysylltu â staff a chynnal trafodaethau gyda nhw. Roedd yr ymgysylltu cynnar hwn yn gyfle i mi sicrhau bod barn y gweithwyr wedi'i chynnwys yn y polisi drafft. Cafodd y Polisi Gweithio Hybrid drafft ei rannu â staff ym mis Medi, ac yn dilyn ymgynghoriad pellach â nhw, cafodd ei lansio ym mis Ionawr 2022.

Ddechrau mis Mawrth 2022, ymgynghorais â staff ar gyflwyno Polisi Menopos newydd a diweddaru'r Polisi Cynaliadwyedd. Cafodd y ddau ei lansio'n ffurfiol yn ddiweddarach y mis hwnnw.

Mae'r polisïau ar gyfer gweithwyr yn cael eu hadolygu bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, fel y bo hynny'n briodol. Bydd unrhyw bolisïau sydd â newidiadau sylweddol yn cael eu dosbarthu i'r holl staff er gwybodaeth ac er mwyn cael sylwadau. Fel arall, bydd y polisi'n cael ei gadw'n ganolog ar fy rhwydwaith TG fel bod modd i bob aelod o staff gael mynediad ato. Mae pob polisi yn cael ei asesu ar gyfer ei effaith ar gydraddoldeb pan gaiff ei gyflwyno neu os gwneir newidiadau sylweddol iddo.

Buddion Gweithwyr Cyflogedig

Rwyf hefyd yn helpu gweithwyr i gadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd drwy weithredu system amser hyblyg a rhoi cyfleoedd i weithwyr gael patrymau gwaith hyblyg.

Mae Gwobr Iechyd y Gweithle Bach (Safon Aur) gennyf ers 2018, ac roedd i fod i gael ei ail-ddilysu ym mis Mai 2021. Oherwydd y pandemig, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru archwiliad statws yn hytrach na'r broses ail-ddilysu lawn, ac mae wedi ymestyn y dyfarniad am flwyddyn arall. Yn yr adroddiad, dywedodd yr asesydd: 'Hoffwn longyfarch Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y ffordd y maent wedi sicrhau'r Archwiliad Statws Lefel Aur hwn yn llawn; nid oes amheuaeth nad yw lles pob aelod o staff yn rhan annatod o ddiwylliant y sefydliad'.

Rwyf wedi parhau i wneud yn siŵr bod rhaglen iechyd a lles gynhwysfawr yn cael ei chyflwyno drwy gydol y flwyddyn i'r holl staff.

Yn ystod 2021-22, iechyd meddwl a lles oedd y prif ffocws o hyd o ran cefnogi staff, wrth weithio gartref a rheoli popeth drwy gyfnod o bandemig. Rhwng mis Hydref a mis Mawrth, cafodd gweithdai misol eu cyflwyno gan weithwyr proffesiynol allanol. Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd iechyd meddwl, gan wneud yn siŵr bod y staff yn ymwybodol o dechnegau y gallent eu defnyddio i ofalu am eu gwytnwch a'u hiechyd meddwl.

Cyflwynwyd cyfres o weithdai a sesiynau hyfforddi hefyd i'r holl staff a oedd yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb Hiliol, Rhagfarn Ddiarwybod a Braint Pobl Wyn. Bwriad y gweithdai hyn oedd datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y sefydliad am gydraddoldeb hiliol ymhellach. Y nod yw llunio cynllun gweithredu gwrth-hiliol yn 2022/23, gan ddangos unwaith eto ein hymrwymiad i fod yn sefydliad gwrth-hiliol.

Yn ystod 2021-22, fe wnes i gynnig cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i bob gweithiwr gael hyfforddiant iaith Gymraeg, wedi'i ariannu'n llawn gan y sefydliad. Roedd pedwar aelod o staff wedi manteisio ar y cyfle hwn.

Mae gennyf Raglen Cymorth i Weithwyr sy'n gyfrinachol ac am ddim i bob aelod o staff.

Bob blwyddyn, bydd y staff yn cynnal asesiad DSE o'u gweithfan. Ym mis Mawrth 2022, ymunodd ffisiotherapydd â sesiwn staff ar-lein yn dangos sut i hunanasesu eich gweithfan eich hun yn effeithiol. Dywedwyd wrth y staff y byddwn yn trefnu i asesydd ymweld â'u cartrefi a darparu cefnogaeth un-i-un os oedd angen i sicrhau bod yr offer angenrheidiol ganddynt, a'i fod wedi'i osod yn iawn i'w galluogi i weithio'n effeithiol ac yn ddiogel gartref.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae buddion fel Cynlluniau Talebau Gofal Plant a Beicio i'r Gwaith ar gael iddynt hefyd.

Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae'r achrediad hwn yn golygu bod pob aelod o staff yn y sefydliad yn ennill y Cyflog Byw o leiaf. Mae'r Cyflog Byw yn seiliedig ar gost byw yn y Deyrnas Unedig.

Does dim achos wedi bod lle bu'n rhaid i mi negodi ag undeb llafur ar ran staff ac nid wyf wedi cael fy hysbysu bod unrhyw weithwyr yn aelodau o undeb llafur ar hyn o bryd.

Effaith Covid-19 ar arferion gweithio

Yn 2021-22, er mwyn cefnogi staff mewn amgylchiadau eithriadol, cyflwynwyd absenoldeb â thâl arbennig o 10 diwrnod ar gyfer materion yn ymwneud â Covid-19. Os nad oedd staff yn gallu gweithio eu horiau contract, roeddent yn gallu gwneud cais am absenoldeb arbennig gyda thâl, a/neu ddefnyddio gwyliau blynyddol, i wneud iawn am y diffyg.

Ers mis Mawrth 2020, er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cynnwys yn llawn a bod y wybodaeth briodol ganddynt, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd tîm ddwywaith yr wythnos. Bwriad hyn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol fel cynllunio gwaith a newidiadau Adnoddau Dynol, rhannu a thrafod effeithiau'r pandemig ar bobl hŷn a'r camau sydd angen eu cymryd, ac ateb unrhyw gwestiynau. Mae staff wedi dweud bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfathrebu o fewn y sefydliad. Felly, mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u gwreiddio yn ein harferion gweithio erbyn hyn.

Mae'r adborth ar y cymorth rydw i wedi'i ddarparu i staff yn ystod y cyfnod eithriadol hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi cael ei groesawu.

Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres

Nid oedd unrhyw gyflogiadau heb fod ar y gyflogres yn ystod 2021-22; (dim, 2020-21).

Gwariant ar Wasanaethau Ymgynghori

Nid oedd unrhyw wariant ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2021-22; (dim, 2020-21).

Iawndal am Golli Swydd

(yn amodol ar archwiliad)

Ni wnaed taliadau iawndal yn 2021-22; (dim, 2020-21)

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
26 Gorffennaf 2022

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac o'i gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a

allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth a archwilir, a'm hadroddiad archwilydd arnynt.. Nid yw deddfwriaeth na chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi cynnwys na ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Oherwydd nad yw deddfwriaeth na chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi cynnwys na ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod y wybodaeth arall o fewn yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol wedi ei pharatoi yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn y gwybodaeth arall o fewn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac, yn fy marn i, mae'r rhan y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a geid yn ystod y gwaith archwilio, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad neu'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;

- nid yw'r datganiadau ariannol na rhan archwiliedig yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Gweinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn Natganiad o Gyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â chyfarwyddiadau Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a Gweinidogion Cymru a wnaed yno, i fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn cysylltiad â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;

- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cylchgronau anarferol a gwrth-wneud rheolaethau gan reolwyr.

- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg; a

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau rheoleidd-dra

Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol imi fod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Auditor General for Wales
26 Gorffennaf 2022

Audit Wales // 24 Cathedral Road // Cardiff, CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Datganiadau Ariannol

Datganiadau Ariannol

Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2021-22 £ 000	2020-21 £ 000
Gwariant			
Costau staff	2	1,115	1,100
Gwariant Gweithredol Arall	3	389	347
Dibrisiant / Amorteiddiad	3	9	12
Darpariaeth	3	8	11
Cyfanswm y Gwariant Gweithredol		1,521	1,470
Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		**1,521**	**1,470**

Mae'r holl incwm a'r gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.

Nid oes dim enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2021-22 na 2020-21.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	31 Mawrth 2022 £ 000	31 Mawrth 2022 £ 000	31 Mawrth 2021 £ 000	31 Mawrth 2021 £ 000
Asedau anghyfredol:					
Eiddo, Offer a Chyfarpar	**4**	16		18	
Asedau anniriaethol	**5**	39		3	
Cyfanswm asedau anghyfredol			50		21
Asedau Cyfredol:					
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	**6**	60		54	
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	**7**	147		398	
Cyfanswm asedau cyfredol			207		452
Cyfanswm asedau			257		473
Rhwymedigaethau cyfredol:					
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	**8**	(68)		(72)	
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			(68)		(72)
Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol			189		401
Rhwymedigaethau anghyfredol					
Incwm gohiriedig	**9**	(97)		(89)	
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol			(97)		(89)
Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu cyfanswm y rhwymedigaethau			**92**		**312**
Ecwiti trethdalwyr			92		312
Cronfa wrth gefn gyffredinol			**92**		**312**

Datganiad o'r Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	31 Mawrth 2022 £ 000	31 Mawrth 2021 £ 000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Gwariant net		(1,521)	(1,470)
Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol	**3**	17	23
(Cynnydd)/gostyngiad yn y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	**6**	(6)	1
Cynnydd/(gostyngiad) yn y symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	**8**	(4)	2
Cynnydd/(gostyngiad) yn y Credydwyr gohiriedig		0	(1)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		**(1,514)**	**(1,447)**
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	**4**	0	0
Prynu asedau anniriaethol	**5**	(38)	0
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		**(38)**	**0**
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		1,301	1,482
Cyllid net		**1,301**	**1,482**
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod am y cyfnod		**(251)**	**35**
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	**7**	**398**	**363**
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	**7**	**147**	**398**

Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol	
	1 Ebrill 2021-31 Mawrth 2022	**1 Ebrill 2020-31 Mawrth 2021**
	£000	**£000**
Balans ar 1 Ebrill	312	300
Gwariant net	(1,521)	(1,470)
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig	(1,209)	(1,170)
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	1,301	1,482
Balans ar 31 Mawrth	**92**	**312**

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
26 Gorffennaf 2022

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Datganiad polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2020-21. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd sydd fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, at y diben o roi darlun cywir a theg. Nodir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn costau hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw asedau gan nad oedd unrhyw addasiad ailbrisio yn berthnasol ym marn y Comisiynydd.

1.2 Incwm, Cyllid a Gwariant

Prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru, a hynny ar ffurf dyraniad cyllid blynyddol.

Os yw cyfrifyddu yn seiliedig ar groniadau, mae'n golygu bod yr incwm a'r gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan mae taliadau ariannol yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd yn berthnasol i Gymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig.

Pan dderbynnir cyllid gan Lywodraeth Cymru i brynu asedau anghyfredol ac anniriaethol, bydd yr incwm yn cael ei drin fel pe bai wedi'i ohirio ac yn cael ei ryddhau'n gymesur â gwerth yr ased sy'n cael ei ddefnyddio bob blwyddyn.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gyda TAW wedi'i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol, gan nad oes modd adfer TAW.

Yn ystod 2021-22 mae'r Comisiynydd wedi defnyddio ei balansau arian hanesyddol i ariannu gwariant yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod cryn amrywiaeth rhwng Gwariant Net 2021-22, sef £1,521,000, a'r arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, sef £1,257,000, hy £264,000.

Ni wnaeth Llywodraeth Cymru addasu cyllideb adnoddau'r Comisiynydd, arhosodd yn £1,589,000.

1.3 Eiddo, Offer a Chyfarpar

Yn Natganiadau Ariannol blaenorol y Comisiynydd, cyfeiriwyd at Eiddo, Offer a Chyfarpar fel asedau anghyfredol diriaethol.

Isafswm lefel cyfalafu Eiddo, Offer a Chyfarpar yw £5,000 gan gynnwys TAW anadferadwy.

Darperir dibrisiant ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu'r asedau drwy randaliadau cyfartal dros yr hyn a amcangyfrifir fel eu hoes ddefnyddiol. Caiff dibrisiant ei ddarparu o'r dyddiad mae oes ddefnyddiol yr ased yn dechrau.

Fel arfer, mae oes asedau fel a ganlyn:

Gwelliannau prydles	Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri hyd at uchafswm o 5 mlynedd
Offer swyddfa	5 blynedd
Offer cysylltiedig â TG	4 blynedd

Cynhwysir Eiddo, Offer a Chyfarpar ar eu cost, oherwydd ym marn y Comisiynydd, ni fyddai unrhyw addasiad sy'n codi o ailbrisio yn berthnasol.

Delir teitl pob eiddo gan y Comisiynydd. Mae'r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles.

1.4 Asedau Anniriaethol

Yn Natganiadau Ariannol blaenorol y Comisiynydd, cyfeiriwyd at asedau anniriaethol fel asedau anghyfredol anniriaethol.

Isafswm lefel cyfalafu ased anniriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW anadferadwy.

Cafodd trwyddedau meddalwedd, meddalwedd technoleg gwybodaeth a'r wefan eu cyfalafu fel asedau anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (pum mlynedd fel arfer).

1.5 Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido.

1.6 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Gellir ei ddisgrifio fel cynllun buddion diffiniedig heb ei gyllido ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/

1.7 Rhagdaliadau

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu trothwy de minimis o £1,200 (£100 o dâl cyfatebol misol) er mwyn cydnabod rhagdaliadau. Bydd y tâl wedi'i broffilio yn cael ei ryddhau yn y mis y bydd y treuliau'n codi.

1.8 Tâl Prydlesi Gweithredol

Mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel treuliau ac yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

1.9 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu gontractiol lle mae'r amseriad neu'r swm yn ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

Mae darpariaeth dadfeiliadau'r Comisiynydd yn cynrychioli amcan o'r costau fydd yn dod i ran y Comisiynydd er mwyn talu am eiddo ar brydles ar ddiwedd y brydles. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ddarparu gan ddefnyddio amcan o gostau gan gontractwr lleol.

1.10 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Roedd y Comisiynydd wedi tynnu arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân yn cael ei gadw yn swyddfa'r Comisiynydd hefyd.

1.11 Buddion gweithwyr cyflogedig

Cydnabyddir cyflogau a chyfraniadau yswiriant gwladol gweithwyr cyflogedig presennol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau'r gweithwyr gael eu cyflawni. Mae'r Comisiynydd yn rhoi cyfrif am wyliau blynyddol â thâl fel rhwymedigaeth lle disgwylir i'r iawndal am absenoldeb gael ei setlo o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r gweithwyr yn cyflawni eu gwasanaeth ynddo.

Safonau cyfrifyddu wedi'u cyhoeddi, ddim ar waith eto:

Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd IFRS 16 – Prydlesi, ac mae mewn grym yn y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022.

Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon prydlesi presennol IAS 17 a bydd angen i'r lesddeiliad gydnabod asedau ac atebolrwydd am brydlesi â thymor hwy na 12 mis oni bai fod gwerth yr ased sylfaenol yn isel. Bydd angen i lesddeiliad gydnabod ased hawl-i-ddefnyddio gan gynrychioli ei hawl i ddefnyddio'r ased sylfaenol a brydlesir ac atebolrwydd prydlesu sy'n cynrychioli ei rwymedigaeth i wneud taliadau prydles. O ganlyniad i hyn, mae lesddeiliad hefyd yn cydnabod bod yr ased hawl-i-ddefnyddio yn dibrisio mewn llinell syth a bod llog ar yr atebolrwydd prydlesu, yn ogystal â dosbarthu ad-daliadau arian parod yr atebolrwydd prydlesu i mewn i brif gyfran a chyfran llog.

Fel sy'n ofynnol gan FReM, bydd IFRS 16 yn cael ei roi ar waith gan ddefnyddio'r dull dal i fyny cronnus.

Oherwydd hyd a gwerth unig brydles y Comisiynydd y mae IFRS16 yn effeithio arni, mae'r rhwymedigaeth prydlesu a'r ased hawl-i-ddefnyddio wedi cael eu cyfrifo ac wedi dangos bod cyfanswm gwerth gostyngol rhwymedigaethau ac asedau hawl-i-ddefnyddio o dan IFRS16 yr un fath â gwerth yr ymrwymiadau les sylfaenol o dan IAS 17. Effaith mewnblaniad yw cynnydd o £77,000 mewn asedau a rhwymedigaethau o £77,000.

Effaith ased hawl-i-ddefnyddio:

Datganiad am y Sefyllfa Ariannol

Cydnabod Asedau Hawl-i-Ddefnyddio	Eiddo	
Addasiad pontio	£	77,000
Ar 1 Ebrill 2022	£	77,000
Llai (dibrisiant)	£	(58,000)
Ar 31 Mawrth 2023	£	19,000

Rhwymedigaeth Asedau Hawl-i-Ddefnyddio	Eiddo	
Addasiad Pontio	£	77,000
Ar 1 Ebrill 2022	£	(77,000)
Llog	£	(1,000)
Cyfalaf gweithio	£	58,000
Ar 31 Mawrth 2023	£	(20,000)

Taliadau Gwariant		
Dibrisiant Asedau Hawl-i-Ddefnyddio	£	58,000
Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesau Asedau Hawl-i-Ddefnyddio	£	1,000
	£	59,000

2. Mae costau staff yn cynnwys:

	2021-22			2020-21
	£000	£000	£000	£000
	Staff Parhaol	Staff Wrth Gefn	Cyfanswm Costau Staff	Cyfanswm Costau Staff
Cyflogau	730	87	817	809
Costau Nawdd Cymdeithasol	76	9	85	83
Costau Pensiwn Eraill	195	18	213	208
Cyfanswm y costau	**1,001**	**114**	**1,115**	**1,110**

Mae dadansoddiad o gostau staff wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Taliadau a Staff ar dudalen 46.

3. Gwariant Gweithredol Arall

Mae gwariant gweithredol arall yn cynnwys:

	Nodyn	2021-22 £000	2020-21 £000
Rhentu o dan brydlesi gweithredol		73	71
Costau eraill o ran adeiladau		68	67
Technoleg gwybodaeth		82	58
Ffioedd proffesiynol		50	47
Hyfforddiant a datblygu		12	5
Teithio a chynhaliaeth		6	6
Ffioedd archwilio – Archwiliad mewnol		8	8
Ffioedd archwilio – Archwiliad allanol		14	14
Rhaglenni Penodol		56	46
Costau gweinyddol eraill		20	25
		389	**347**
Eitemau anariannol:			
Dibrisiant	4	7	8
Amorteiddiad	5	2	4
Darpariaeth	9	8	11
		17	**23**
Cyfanswm		**406**	**370**

4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

	Offer Cyfrifiadurol £000	Offer Swyddfa £000	Gwelliannau Prydles £000	Cyfanswm £000
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill 2021	**35**	**32**	**279**	**346**
Ychwanegiadau	0	0	0	0
Gwarediadau	(5)	0	0	(5)
Ar 31 Mawrth 2022	**30**	**32**	**279**	**341**
Dibrisiant ac Amhariad				
Ar 1 Ebrill 2021	**28**	**23**	**277**	**328**
A godwyd yn ystod y flwyddyn	4	2	1	7
Gwarediadau	(5)	0	0	(5)
Ar 31 Mawrth 2022	**27**	**25**	**278**	**330**

Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022	**3**	**7**	**1**	**11**
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2021	7	9	2	18

Ni amharwyd ar unrhyw asedau ac fe'u dangosir ar gost a ystyrir yn 'werth teg'.

5. Asedau Anniriaethol

	Trwyddedau Meddalwedd £000	Technoleg Gwybodaeth £000	Gwefan £000	Cyfanswm £000
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill 2021	46	68	0	114
Ychwanegiadau	0	2	36	38
Gwarediadau	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2022	**46**	**70**	**36**	**152**
Amorteiddiad				
Ar 1 Ebrill 2021	46	65		111
A godwyd yn ystod y flwyddyn	0	2	0	2
Gwarediadau	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2022	**46**	**67**	**0**	**113**

Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022	**0**	**3**	**36**	**39**
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2021	0	3	0	3

Ni amharwyd ar unrhyw asedau ac fe'u dangosir ar gost a ystyrir yn 'werth teg'.

6. Symiau derbyniadwy drwy fasnach

	31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2021 £000
Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Dyledwyr masnach	2	0
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	58	54
	60	**54**

Rhagdaliad yw swm sy'n cael ei dalu ymlaen llaw, fel arfer am eitemau fel ardrethi neu rent. Caiff ei gydnabod fel ased i ddechrau ac fe gaiff ei osod fel treuliau yn y cyfnod pan dderbynnir y buddiant.

Nid oedd symiau masnach derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

7. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

	2021-22 £000	2020-21 £000
Balans ar 1 Ebrill	398	363
Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	(251)	35
Balans ar 31 Mawrth	**147**	**398**
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	79	188
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	68	210
Balans ar 31 Mawrth	**147**	**398**

8. Symiau Masnach Taladwy a Rhwymedigaethau Eraill

	31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2021 £000
Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau masnach taladwy	1	2
Croniadau	67	70
Balans ar 31 Mawrth	**68**	**72**

9. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Ffioedd

	31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2021 £000
Balans ar 1 Ebrill	89	78
Darparwyd yn y flwyddyn	8	11
Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	0	0
Balans ar 31 Mawrth	**97**	**89**

Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r tâl dadfeilio am y swyddfa yn ystod cyfnod y brydles ac wrth i'r brydles gael ei therfynu. Yn unol ag IAS 37, caiff y ddarpariaeth hon ei hadolygu bob blwyddyn.

10. Ymrwymiadau dan brydlesi

Prydlesi gweithredol

Nodir cyfanswm taliadau prydles sylfaenol i'r dyfodol yn y tabl isod, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

	31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2021 £000
Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:		
Tir ac adeiladau:		
Dod i ben o fewn blwyddyn	69	69
Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd	25	94
Hwyrach na phum mlynedd	0	0
	94	**163**

11. Ymrwymiadau cyfalaf

	2021-22 £000	2020-21 £000
Ymrwymiadau cyfalaf ar gontract ar 31 Mawrth nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y cyfrifon hyn.	5	0

Mae gan y Comisiynydd Ymrwymiad Cyfalaf ar 31 Mawrth 2022 sy'n ymwneud ag uwchraddio gweinydd; mae disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Mai 2022.

12. Offerynnau Ariannol

Mae gofynion ariannol y Comisiynydd yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, nid yw'r Comisiynydd yn wynebu llawer o risgiau o ran hylifedd.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio. Oherwydd hyn, nid yw'r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd, cyfradd llog nac arian tramor.

Does dim gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y gwerth ar y llyfrau a gwerth teg rhwymedigaethau ac asedau ariannol y sefydliad ar 31 Mawrth 2022 (31 Mawrth 2021: £dim).

13. Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2020-21: dim). Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo sy'n brydlesi neu'n gontractau PFI (2020-21: dim).

14. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu yn rhywle arall yn y cyfrifon hyn (2020-21: dim).

15. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2021-22 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1,257,000 gan Lywodraeth Cymru (2020-21: £1,482,000).

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2021-22 ni fu'r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Rheoli Busnes, nac unrhyw aelod o'u teulu, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r taliadau cyflog a'r hawliadau arferol am dreuliau.

16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau o bwys rhwng diwedd y flwyddyn ac adeg cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 26 Gorffennaf 2022 gan Heléna Herklots CBE.